

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 371 - 60c
Mawrth 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Dathlu
Gŵyl ein
Nawddsant



Tudalen 2

Cadwyn
Cyfrinachau
arall



Tudalen 20

Sioe fach
yn cyflwyno
siec hael



Tudalen 25

Eisteddfod lewyrchus ym Mro Pedr



Owen Rhys Davies oedd enillydd y Goron ac Owen Schröder oedd enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Bro Pedr. Roedd y ddau o Dŷ Dulas.



Capteniaid ac is-gapteniaid y tai. Tŷ Teifi (coch) oedd yn fuddugol - Matt Small a Lisa Evans, Capteniaid, gyda Emily Foss a Llion Herbert, Is-gapteniaid. Tŷ Creuddyn (melyn) yn ail - Amber Davies Is-gapten, Bryn Jones ac Elin Jones, Capteniaid ac Eleri James, Is-gapten. Tŷ Dulas (glas) yn drydydd - Gwyn Davies, Is-Gapten, Idris Lloyd a Samantha Weller, Capteniaid a Catrin Davies, Is-gapten.





Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● MURLUN GŴYL DEWI LLANBED YN EI LE

Mae'r murlun bellach lan ar wal W. D. Lewis a'i fab yn Stryd y Bont a hoffai aelodau Pwyllgor Gŵyl Dewi ddiolch i'r noddwyr am eu cefnogaeth.

Cafodd y plant o bedair ysgol leol sef Bro Pedr, Carreg Hirfaen, Dyffryn Cledlyn a'r Dderi, brofiad amhrisiadwy wrth gyd-weithio gyda Rhiannon Roberts yr artist talentog gan greu gwaith trawiadol.



● NEWID CYFRWNG Y CYFNOD SYLFAEN I'R GYMRAEG YN YSGOL BRO PEDR

Cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol i newid cyfrwng Cyfarwyddyd yn y Cyfnod Sylfaen i'r Gymraeg yn Ysgol Bro Pedr, Llanbedd, ar ddydd Llun, 04 Chwefror 2019.



● CODI ARIAN TUAG AT EISTEDDFOD 2020

Mae'r holl bwyllgorau apêl yn ardal Papur Bro Clonc wedi eu sefydlu a gweithgareddau yn digwydd o un i un er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf yn Llanbedd nos Fawrth gyda Noson Stwffio yn y Shapla.



Llun @wyn_jone

● OES ANGEN TAI NEWYDD YN LLANBED?

Wrth i hen adeilad Ysgol Ffynnonbedr gael ei ddymchwil yr wythnos ddiwethaf, mae llawer o bobl yn gofyn oes angen tai newydd yn Llanbedd?

Y bwriad yw codi 20 o dai ar safle'r hen ysgol, ac mae cynlluniau hefyd i godi 90 o dai newydd ger Maes-y-deri.



Llun gan Gillian Thomas

Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru

Dydd Gŵyl Dewi



Plant Ysgol Llanllwni yn dathlu Gŵyl Ddewi.



Rhai o blant Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Bro Pedr yn mwynhau dathlu Gŵyl Ddewi.



Rhai o ferched Ysgol Llanllwni yn dathlu gŵyl eu nawddsant yn eu gwisgoedd Cymreig.



Meim - Creuddyn, Eisteddfod Ysgol Bro Pedr. Mwy o luniau a'r hanes o dan yr ysgol.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mawrth Lois Williams, Crynfryn, Cwmann 423700
Ebrill Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambod Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50. Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cawl Gŵyl Dewi

Ddw flynedd yn ôl, fe ddweddes i ei bod hi'n syndod nad yw Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod cenedlaethol o wyliau. Ond efallai na ddylwn i synnu taten: drwy'r oesoedd rydyn ni wedi gorfod gwrandao ar ryw esgus o resymeg taw cornelyn o Brydain yw Cymru, nid gwlad go iawn. Onid ydyn ni'n cael ein hatgoffa o hynny'n dawel ac yn gyfrwys gydag enwau fel 'tywysogaeth' ... a chan ei bod hi'n dymor rygbi'r chwe gwlad, tybed ydi Stadiwm 'Principality' (er taw cyfeirio at y cwmni sy'n noddi y mae'r enw) yn cadarnhau hynny yn is-ymwybod rhai?

Ond gwyliau cenedlaethol neu beidio, mae'n dda bod cymunedau ar draws Cymru gyfan (boed yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr) yn dathlu ac yn nodi gŵyl ein nawddsant. Efallai y dylwn i ddiolch nad yw'n wyliau i bawb, oherwydd pe na fyddai'n ddiwrnod ysgol, tybed faint o ymdrech fyddai'r ysgolion yn ei roi ar sicrhau dathliad teilwng? Na, mae'n dda gweld plant bach a mawr yn eu coch a'u brethyn, yn mynychu eisteddfodau a digwyddiadau cawl a chàn. Ydy hyn yn ffaswn sy'n dyddio? Ydi, mae'n ddigon posib - mae gen i luniau o'm cenhedlaeth i (a rhai hŷn!) a orfodwyd i wneud yr un peth. Ond erbyn hyn, mae rhywun yn sylweddoli gwerth yr hyn a ddysgwyd, ac yn gwerthfawrogi'r hanes a'r traddodiad. Hyd yn oed os taw dim ond mynd trwy'r 'motions' a wnawn ni â'n plant ac â phlant ein plant, gwnawn hynny gan obeithio y byddan nhw'n tyfu i fod yn Gymry fydd yn ymfalchio yn eu hanes, ac yn brawd o fod yn perthyn i'r genedl arbennig hon yn yr unfed ganrif ar hugain.

Eleni, am yr eildro, mae cyngor tref Llanbedr Pont Steffan wedi trefnu gorymdaith i ddathlu Gŵyl Dewi. Dyma gyfle i'r gymdogaeth gyfan, yr hen a'r ifanc, ddod at ei gilydd i ddathlu Cymreictod. Diolch am y cyfle, a mawrygwn y ffrainc o gael perthyn i gymuned ac i genedl arbennig. Gwnewch y pethau bychain!

Cloncen

Dathlu Gŵyl ein Nawddsant



Tim Teifi oedd yn fuddugol yn Eisteddfod Ysgol Llanllwni eleni gyda Mared a Tilly yn gapteniaid. Mwy o hanes o dan yr ysgol.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder SA40 9RL

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



Ceginau
Lifestyle
LKitchens Ltd

CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



MAWRTH

- 7 Gŵyl Offerynnol yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 9-10 Gwledd Adloniant C.Ff.I. Cymru.
- 11 Cyngerdd Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Pontsian yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul yng nghwmni Capel Iwan a Trisant.
- 12 Cyngerdd Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Llanwenog yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach am 7.30y.h. yng nghwmni Clybiau Dyffryn Cothi a Troeduraur.
- 13 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.00yh.
- 14 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr.
- 15 Noson o Adloniant C.Ff.I Llanllwni yng nghwmni C.Ff.I. Llanwenog yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul am 7.30yh.
- 17 Cymanfa Ganu Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel Llanddewi Brefi.
- 19 Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 20 Cymdeithas Chwirydd Aberduar, Llanybydder yn cynnal Arwerthiant yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
- 22 Noson Gymreig yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach gydag artistiaid lleol yn diddanu. Elw tuag at Gronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Mynediad £5.
- 22 Noson Gwis yn Llain y Castell am 7.00y.h. Elw at Gronfa Leol Llambled Eisteddfod Genedlaethol 2020.
- 23 Noson gyda Bois y Gilfach yng Nghlwb Bowlio, Llambled. Elw tuag at brynu Diffibрилиwr i'w roi tu allan i'r Clwb Bowlio at ddefnydd pawb yn y gymuned.
- 24 Noson gyda Merched Bro'r Mwyn, Kees Huysmans ac Ann Davies yng Nghapel Rhydybont, Llanybydder am 6.00yh. Elw tuag at Ymchwil Cancr.
- 26 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal Noson Bingo yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch.
- 29 Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 30 Eisteddfod Cynradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

EBRILL

- 2 Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.
- 5 Noson Caws a Gwin a Chlonc yng Ngwesty'r Porth, Llandysul. Panel o siaradwyr – Ben Lake AS; Canon Eileen Davies; Catrin Haf Jones a Dylan Iorwerth yn cadeirio. Elw tuag at MIND Cymru a Chanolfan Llyspedr.
- 7 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa Llambledr Pont Steffan am 5.00y.p.
- 8 Merched y Wawr Llambled yn ymweld â chanolfan LAS yng nghwmni Tina Morris.
- 10 Cinio Dathlu 70 oed Sefydliad y Merched Llanwnnen yng Nghegin Gareth am ganol dydd.
- 12 Pwyllgor y Pentref yn cynnal Dawns Dewis Brenhines yng Ngwesty Crosshands Llanybydder am 6.00y.h.
- 14 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Bwlchyfadfa. Plant ac Ieuenctid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 20 Bois y Gilfach yn trefnu Cyngerdd yn Neuadd Coleg y Drindod Dewi Sant, Llambled, yng nghwmni Rhys Meirion a Chôr Llanddarog. Bydd Ffion Dafis a Dr Elin Jones, Oncolegydd yn Ysbyty Bronglais yn rhan o'r noson, gydag Elin Jones AC yn Llywydd y noson. Elw tuag at Uned newydd Cemotharapi i Ysbyty Bronglais.
- 21 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuenctid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 24 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Groes, Llanwnnen.
- 26 Bydd David Cooper yn traddodi'r ddarlith "My life as a Cold War Warrior" - ei brofiadau personol o fyw a gweithio yn yr Almaen yn y 60au, yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog am 7.00y.h. Tocynnau £10 yn cynnwys bwyd a diod.
- 28 Taith Gerdded Noddedig Plwyf Llanwenog 10.00yb Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach.
- 28 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi, Llambled. Plant ac Ieuenctid am 2.00 a'r Oedolion am 5.30y.h.

MAI

- 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Fadfa, Talgarreg.
- 4 Cwmni Myrddin yn cyflwyno 'Dau Hanner Brawd' gan Nan Lewis ac Eric Jones yn Theatr Mwldan, Aberteifi am 7.30y.h. Tocynnau ar gael gan y theatr 01239 621200. Pris £12 i bawb.
- 5 Tê Prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann i godi arian at daith Llion Herbert i Borneo. Tocynnau yn £15 ar gael drwy ffonio 421392.
- 6 Ras Dyffryn Cledlyn.
- 6 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
- 11 Rali C.Ff.I. Sir Gâr yn Nantyci, Caerfyrddin.
- 19 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ym Methel Silian am 4.00y.p.
- 19 Ras Fynydd Sarn Helen.
- 19 Cystadleuaeth Bêl-droed Llanybydder ar y cae rygbi gan ddechrau am 10.00 yb.

MEHEFIN

- 1 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Ynysforgan, Lledrod.
- 15 Gŵyl Bêl-droed Llambled ar gaeau'r brifysgol gan ddechrau am 10.00yb.
- 26 Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal diwrnod 'It's a Knockout' yn y cae rygbi am 12.30y.p.
- 28 Hufen a Mefus yng Nghlwb Bowlio Llambled, - elw tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020. Artistiaid Ifanc ynghyd â Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch.
- 28 Cynhelir "Pnawn Pancws" yn Eglwys Santes Gwenog Llanwenog rhwng 2y.p a 7 y.h. Cewch glywed hanes yr Eglwys ac mi fydd drysau'r tŵr yn cael eu hagar i'r cyhoedd. Cyfle unigryw i ddringo'r grisiau mewnol i gopa tŵr yr Eglwys a chael gweld yr olygfa arbennig. Bydd cyfran o'r elw yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

GORFFENNAF

- 6 Sioe Amaethyddol Llambled.
- 22-25 Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd.
- 23-29 Wythnos Carnifal Llanybydder.
- 27 Ffair Fwyd Llambled ar dir y brifysgol gan ddechrau am 10yb.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered Business

Peiriannydd Gwres Canolog Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Clwb Bowlio Llambled
Noson yng nghwmni

BOIS Y GILFACH

Nos Sadwrn, Mawrth 23ain
am 8 o'r gloch

Pris tocyn - £5

Elw i godi arian i gael Diffibрилиwr tu allan i'r clwb.

Tocynnau ar werth yn Siop Carpedi Gwyn Lewis a Caffi Mark Lane.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol yn Neuadd Coedmor ar ddydd Gwener, Chwefror 22ain. Cafwyd diwnod hyfryd yng nghwmni'r Beirniaid, Mrs Morfudd Slaymaker a Mrs Elma Phillips. Agos iawn oedd y cystadlu ond Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair blynyddoedd 5 a 6 am stori Gymraeg gan Seren Ling, a'r darian am y gwaith Saesneg gorau hefyd gan Seren Ling. Enillwyd cadair Cyfnod Sylfaen gan Alis Jones o flwyddyn 2. Ifan Emrys Davies a enillodd gadair blynyddoedd 3 a 4 a Jac Jones y darian am waith Saesneg. Llongyfarchiadau enfawr i bawb.

Yn ystod mis Ionawr buodd plant a staff CA2 am ddridiau i Wersyll yr Urdd, Caerdydd. Cawsom dywydd sych a thridiau llawn hwyl a sbri! Dyma adroddiad Deina Evans o flwyddyn 3:

Ar ddydd Mercher, Ionawr 23ain aethom i Gaerdydd. Yn gyntaf neidion ar y bws. Roedd y bws yn grasboeth ond roedd yn braf cael noodles i ginio yn McArthur Glen. Yn gyntaf aethom i'r Stadiwm Principality. WAW!!! Dw i erioed wedi gweld stadiwm mor wych yn fy myw. Wedyn aethom i rafftio. Roedd y rafftio yn anhygoel ond yn oer. Cefais drafferth i roi y wet suit arno. Roedd rhaid i ni fynd i'r gwersyll a bwyta ein swper yn gyflym gan fod rhaid i ni rasio draw i'r lle bowllo. Cawsom amser ardderchog. Roedd Lily a Megan a fi fel proffesionals. Roeddwn yn falch i weld fy ngwely.

Doedd neb wedi cysgu llawer a phawb yn swnllyd iawn ond cawsom hwyl a sbri yn rhannu ystafelloedd gyda'n ffrindiau. Ar ddydd Iau cawsom ein tywys o gwmpas Canolfan Mileniwm, mynd i Techniquet ac ar y cwch cyflym. Roedd Miss Davies wedi mwynhau y cwch cyflym sut gymaint aeth arno ddwy waith!! Gyda'r nos aethon i weld 'Wreck it Ralph breaks the Internet.' Roedd yn wych. Cysgodd pawb yn braf yr ail noson.

Cyn dod adre dydd Gwener aethon i nofio. Roedd sawl llithren yna a pawb yn mwynhau mas draw. Fy hoff beth oedd Stadiwm Principality achos cawsom weld popeth. Stadiwm gorau yn y byd. Roeddwn yn wen o glust i glust. Diolch i'r athrawon a mam (Meinir) am fynd a ni.

Daeth PC Hannah allan yn ystod y mis i drafod diogelwch ar y we gyda phlant CA2. Cawsom amser da wrth ddysgu sut i gadw'n SMART ar lein.



Yr unigolion â'r pwyntiau uchaf yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen oedd Deina Evans yn CA2 ac Ifan Jones yn y Cyfnod Sylfaen.



Cynhaliodd Ysgol Carreg Hirfaen ei Eisteddfod Gŵyl Ddewi ar y Dydd Gwener, a cadeiriwyd pump bardd - O'r chwith - Cyfnod Sylfaen Cymraeg - Alis Jones; Blwyddyn 3 a 4 Cymraeg - Ifan Davies; Blwyddyn 5 a 6 Cymraeg - Seren Ling, a hi hefyd oedd y bardd Saesneg buddugol o Fl. 5 a 6; Blwyddyn 3 a 4 Saesneg - Jac Jones. Tu ôl iddynt mae'r tywyswyr a'u cyrchodd i'r llwyfan.



Dathlu'r Deunaw

Dathlodd Osian Rhun, Araul, Heol Caerfyrddin a Naomi Davies, Hafod Lon, Cae Ram eu pen-blwyddi yn 18 oed yn ystod mis Chwefror.

Pob dymuniad da i chi.

Enillwyr Misol Clwb 125

Neuadd Sant Iago Chwefror 2019

1. Lois Williams, Crynfryn, Cwmann, 53. 2. Mary Jones, 41a Stryd Fawr, Llambled, 65. 3. Anne Jones, Arfryn, Cwmann, 63. 4. Audrey Bonner, Heol-Bont, Llambled, 6. 5. Gavin & Rebecca Evans, Llanllwni, 73. 6. Von Abel, Neuadd-Deg, Cwmann, 109. 7. Margaret Jones, Y-Glyn, Cwmann, 90.

Genedigaeth Merch

Llongyfarchiadau mawr i Llion a Beca Russell ar enedigaeth eu merch Hanna Ceinwen, chwaer fach i Aron ac Efa. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Llongyfarchiadau i Mrs Carys Davies (athrawes dosbarth Fana Carreg Hirfaen) a'i gŵr Rhyddian ar enedigaeth eu merch fach Martha Grug. Clywed fod Martha fach wedi ymweld â'r ysgol yn barod a'r plant wedi dwlu cael cwrdd â hi.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Gareth ac Eleanor Russell, Coedeiddig ar enedigaeth eu hwyres fach Hanna Ceinwen.

Llwyddiant ym myd Golff

Llongyfarchiadau mawr i Bryn Thomas, a fu'n cynrychioli Clwb Golff Caerfyrddin a thîm Cymru, mewn cystadleuaeth golff ym Mhortiwal yn ddiweddar.

O Gwmann i Forneo, Asia

Ym mis Awst eleni, fe fydd Llion Herbert, 4 Cysgod y Coed, ynghyd â saith disgybl arall o Fro Pedr yn mynd ar alldaith i Forneo yn yr Asia i wirfoddoli mewn ardal diffeintiedig. Er mwyn galluogi yr wyth ohonynt i fynd ar yr alldaith, mae'n ofynnol iddynt gasglu arian a chodi ymwybyddiaeth o'r daith. Mae Llion wedi trefnu tē prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann ar ddydd Sul 6ed o Fai am 3 o'r gloch. Os hoffech gefnogi Llion a'i ffrindiau gallwch archebu tocyn drwy ffonio 01570 421392.

Enillwyr Misol Clwb 225

Chwefror 2019

1. Carl a Meinir Douglas, Maestir Rd, Llambled, 144. 2. Mrs E. Lewis, Tanlan, Cwmann, 154. 3. Owain a Bethan Jones, Trewerin, Cwmann, 150. 4. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-Rhos, Cwmann, 45. 5. Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 111. 6. Aneurin Jones, Hathren, Llambled, 124. 7. Iwan Williams, Dolgwm-Isaf, Pencarreg, 108.

Eisteddfod Ysgol Bro Pedr Iau



Seremoni Cadeirio Blwyddyn 2 Ysgol Bro Pedr am ysgrifennu storïau Cymraeg a Saesneg.

Llongyfarchiadau i: 1af Tia Gilbert, 2il Ifan Teifi Davies, 3ydd Charlie Burton, 1af Seirian Cutler, 2il Harvey Thomas a 3ydd Logan Morris.



Yn y llun gwelir y Cynghorydd Ivor Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr, yn cyflwyno gwobrau i arweinyddion corau'r Cyfnod Sylfaen yn Eisteddfod Ysgol Bro Pedr – 1af Côr Dewi gyda Seirian yn arwain, Steffan yn ail gyda Charlie yn arwain a Pedr yn drydydd gyda James yn arwain.



Seremoni Cadeirio Blwyddyn 3 a 4 Ysgol Bro Pedr am ysgrifennu storïau Cymraeg a Saesneg.

Llongyfarchiadau i: 1af Arlo Moss, 2il Harry Condon, 3ydd Sophie Cotton, 1af Julia Liecau, 2il Mikayla Clements, 3ydd Efa Lloyd Jones, 1af Alma Spooner, 2il Daria Tuziac, 3ydd Keeley Barrett, 1af Jacob Burton, 2il Jeston Allan a 3ydd Holly Strain.



Mrs Delor James yn cyflwyno gwobrau arweinyddion y corau yn Eisteddfod Ysgol Bro Pedr – Côr Steffan yn fuddugol gyda Micah yn arwain, Dewi yn ail gyda Tomos yn arwain a Pedr yn drydydd gyda Lucy yn arwain.



Seremoni Cadeirio Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Bro Pedr am ysgrifennu storïau Cymraeg a Saesneg.

Llongyfarchiadau i 1af Kyna Logan, 2il Arthur Williams, 3ydd Benjamin Hale, 1af Charley Wood, 2il Louie Jones, 3ydd Katie Little(absennol), 1af Eva Ashley Smith, 2il Hugo Douglas, 3ydd Isaac Killie, 1af Maja Subotowitz, 2il Sion Ifan Williams a 3ydd Caitlin Gately.



Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Bro Pedr, tŷ Dewi oedd yn fuddugol gyda Steffan yn ail a Pedr yn 3ydd. Yn y llun gwelir y capteiniaid a'r is-gapteiniaid gyda'r beirniad, Mrs Delor James, a'r Pennaeth Mrs Jane Wyn.



Buddugwyr Eisteddfod Gŵyl Ddewi Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Pedr oedd tŷ Dewi, gyda Steffan yn ail a Pedr yn 3ydd. Yn y llun gwelir y capteiniaid gyda'r beirniad, Mrs Delor James.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol o Ysgol Bro Pedr a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod y Campws Hŷn.

Llefaru Bl. 5 a 6 – 1af Charlotte Finch, 2il Caitlin Gately, 3ydd Charley Wood

Unawd Bl. 5 a 6 – 1af Lexie Wells, 2il Amy Morgan, 3ydd Lucy Warner

Llefaru Ail-iaith Bl.5 a 6 – 1af Charlie Condon, 2il Danni Murray, 3ydd Micah Harvey



Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Mae disgyblion blwyddyn 2 yn derbyn gwersi wythnosol ar hyn o bryd am ddiogelwch ar y ffordd dan gywaith “Kerbcraft.”

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Lleucu Aeron o'r Urdd sydd wedi bod yn darparu sesiynau chwaraeon gyda disgyblion blynyddoedd 1 a 2 - mae pawb wedi mwynhau cael cyfle i ddatblygu amryw o sgiliau.

Ar ddydd Miwsig Cymru bu'r Pwyllgor Cymreictod yn chwarae hoff gerddoriaeth y plant ac yn ogystal cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn seiliedig ar gerddoriaeth Gymraeg.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn brysur yn paratoi ar gyfer cymeryd rhan yn Eisteddfod ysgol y Campws Hŷn a'r Campws Cynradd. Bu nifer ohonynt yn llefaru a chanu yn y rhagbrofion a llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a ddaeth i'r brig:- Llefaru bl 5 a 6 – 1af Charlotte Finch, 2il Caitlin Gately, 3ydd Charley Wood. Unawd bl 5 a 6 – 1af Lexie Wells, 2il Amy Morgan, 3ydd Lucy Warner. Llefaru ail-iaith 5 a 6 – 1af Charlie Condon, 2il Danni Murray, 3ydd Micah Harvey. Cafodd pob disgybl o flynyddoedd 5 a 6 gryn foddhad o gael gwyllo rhai o gystadlaethau Eisteddfod y Campws Hŷn megis y meim a'r sgets.



Gwnaeth Fflur Meredith o flwyddyn 4 argraff dda iawn yng nghystadleuaeth Cogurdd Sirol i ddisgyblion blwyddyn 6 ac iau – fe wnaeth goginio pryd o fwyd tri chwr blasus – llongyfarchiadau i ti Fflur a dal ati i goginio.

Cafwyd diwrnod hyfryd yn dathlu Dydd Gŵyl ein nawddsant yn ein heisteddfod ysgol, gyda phob disgybl o'r Meithrin hyd at flwyddyn 6 yn cymeryd rhan ar lafar ac ar gân. Diolch o galon i'r plant am wneud eu gwaith mor raenus ac i'r staff am yr holl waith paratoi. Diolch o galon i'n beirniad Mrs Delor James am feirniadu cystadlaethau'r llwyfan yn ogystal â'r storiâu Cymraeg, llawysgrifen ac ail-iaith, i Mrs Carys Phillips am feirniadu'r storiâu Saesneg ac i Mrs Wendy Thomas am feirniadu'r gwaith Celf. Dewi oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Côr Cyfnod Sylfaen, gyda Seirian Cutler yn arwain, Steffan yn ail gyda Charlie Burton yn arwain a Pedr yn 3ydd gyda James Brown yn arwain. Yn Seremoni Cadeirio blwyddyn 2 daeth y canlynol i'r brig am ysgrifennu storiâu Cymraeg a Saesneg - 1af Tia Gilbert, 2il Ifan Teifi Davies, 3ydd Charlie Burton, 1af Seirian Cutler, 2il Harvey Thomas, 3ydd Logan Morris. Ar ddiwedd Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen, tŷ Dewi oedd ar y blaen, gyda Steffan yn ail a Phedr yn drydydd.

Yn Seremoni Cadeirio blwyddyn 3 a 4 roedd y canlynol yn llwyddiannus am ysgrifennu storiâu Cymraeg a Saesneg - 1af Arlo Moss, 2il Harry Condon, 3ydd Sophie Cotton, 1af Julia Liecau, 2il Mikayla Clements, 3ydd Efa Lloyd Jones, 1af Alma Spooner, 2il Daria Tuziac, 3ydd Keeley Barrett, 1af Jacob Burton, 2il Jeston Allan, 3ydd Holly Strain. Yn seremoni Cadeirio blwyddyn 5 a 6 daeth y canlynol i'r brig am ysgrifennu storiâu Cymraeg a Saesneg - 1af Kyna Logan, 2il Arthur Williams, 3ydd Benjamin Hale, 1af Charley Wood, 2il Louie Jones, 3ydd Katie Little (absennol), 1af Eva Ashley Smith, 2il Hugo Douglas, 3ydd Isaac Killic, 1af Maja Subotowitz, 2il Sion Ifan Williams, 3ydd Caitlin Gately. Meim neu ddawns tŷ Dewi oedd yn fuddugol, gyda Steffan yn ail a Phedr yn drydydd a chôr Adran Iau Steffan aeth â hi gyda Micah Harvey yn arwain, côr Dewi yn ail gyda Tomos Lloyd Jones yn arwain a chôr Pedr yn drydydd gyda Lucy Warner yn arwain. Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd tŷ Dewi a ddaeth i'r brig, gyda Steffan yn ail a Phedr yn drydydd. Da iawn bawb.




Llongyfarchiadau mawr i ddau ddisgybl o Ysgol Bro Pedr am wneud yn arbennig o dda yng nghystadleuaeth Sirol Cogurdd i flynyddoedd 7, 8 a 9. Roedd y safon yn hynod o uchel a deg yn cystadlu. Cipiodd Elen Jones y wobr gyntaf am yr ail flwyddyn yn olynol ac Ifan Meredith yn dod yn drydydd. Arbennig iawn.

Ysgol Bro Pedr Campws Hŷn



Llongyfarchiadau mawr i Catrin Schroder o flwyddyn 11 sydd wedi ennill teitl Pencampwraig Prydain dan 15 oed 2018 yn y categori K1W mewn Canwio. Mae Catrin wedi bod yn aelod diwyd o Landysul Paddlers ers blynyddoedd ac wedi gweithio'n galed iawn. Rydym yn brawd iawn ohoni fel ysgol. Arbennig Catrin!



Llongyfarchiadau mawr hefyd i Osian a Beca Roberts yn eu llwyddiannau yn ystod Pencampwriaethau Athletau Cymru yn ddiweddar. Enillodd Osian 1af yn y naid uchel - neidiodd 1.68metr, sef ei uchder personol gorau hyd yn hyn, tra enillodd Beca 1af yn y naid driphlyg, yn cyrraedd ei marc gorau personol hefyd. Da iawn chi!

Aeth dwy o ddisgyblion y 6ed dosbarth i Gaerdydd yn ddiweddar i gwrdd efo goroeswraig yr Holocaust, Eva Clarke. Yr wythnos ganlynol bu'r merched yn ymweld ag Auschwitz fel rhan o'r Prosiect LFA – profiad anhygoel.

Bu disgyblion Ysgol Bro Pedr yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen yn mis Ionawr drwy wneud amrywiaeth o weithgareddau – gwerthu rhosys, dawnsio gwerin, coginio, disgriflo a gwaith Celf.






Rhai o blant Bro Pedr gyda'u danteithion Dydd Santes Dwynwen.


Gadair. Bwrodd nifer helaeth o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Diane'. Enillwyd y Gadair gan Owen Schroder o dŷ Dulas, gyda Elin Davies o Creuddyn yn ennill yr ail wobwr a Elan Jones o Teifi'n drydydd. 'Reflections' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Owen Rhys Davies o dŷ Dulas oedd yn fuddugol, dyfarnwyd Aoife Wooding o Deifi a Max Parry o dŷ Dulas yn gydradd ail. Braff oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Elin Davies a Bryn Jones (Creuddyn); Samantha Weller ac Idris Lloyd (Dulas); Lisa Evans a Matt Small (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol. Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 584 o bwyntiau, Creuddyn yn ail gyda 548 a Dulas yn drydydd gyda 426 o bwyntiau. Nos Iau, Chwefror 11eg, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgets, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnys agored - rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrlwm afieithus y disgyblion. Talodd y brifathrawes, Mrs Jane Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd am drefnu a goruchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Siencyn Jones a Max Parry am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn, ac i bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.



Grŵp Pop - Teifi



Parti Bechgyn – Dulas



Parti Merched - Creuddyn

Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o Eisteddfod y campws hŷn eleni. Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ gyda Theifi yn cipio'r brif wobwr ac yn ennill yr Eisteddfod. Y beirniaid eleni oedd Mrs Gill Hearne (Cerdd), Mrs Delor James (Llefaru a'r Gadair) gyda Cathryn Gwynne yn beirniadu cystadleuaeth y Goron. Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y beirniaid at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r

Diolch

Dymuna Sioned Evans, 5 Godre'r Coed, Olmarch, ddiolch o waelod calon i bawb am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Chwefror 8fed dan lywyddiaeth Gwen Lewis. Ein gŵr gwadd oedd Alan Leech o Lanfair a chawsom ganddo hanes diddorol iawn am Annie Fenton Jones – gwraig o dras bonheddig, ariannog ac yn anghyffredin iawn mewn llawer ystyr. Priododd a gŵr oedd bron ddeugain mlynedd yn hŷn na hi – bancyr ydoedd yn berchen ar diroedd lawer yn yr ardal yma, sef William Jones, ac yn Glendenys, Silian y treuliodd ei hoes. Bu yn gymwynasgar iawn tuag at blwyfi Silian a Llanfair. Claddwyd hi mewn lle yr adnabyddir heddiw fel "Beddau y Cariadon" ar ymyl mynydd Llanfair. Diolchwyd i Mr Leech yn gynnes iawn am brynawn mor bleserus a hanesyddol gan Peter Cornelius.

Enillwyd y raffl gan Alunda Jones, Alan a Jean Baker, Janet Farrow, Wendy Davies, Helen French, Sue Wellings, Gwen Lewis, Tegwyn Cornelius a Maureen Morgans.

Yn "Granny's Kitchen" yn Llambled y byddwn yn cael ein cyfarfod nesaf i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Merched y Wawr

Cawsom noson hyfryd yng nghwmni y Fon. Ann Davies pryd y bu yn sôn wrthym am ei theithiau tramor oedd ynghlwm â phrosiectau mewn ysgolion dros yr ugain mlynedd diwethaf. Roedd yna waith papur enfawr ynghlwm â'r teithiau yma oherwydd mai arian o gyllid Ewrop oedd yn talu amdanynt. Bu rhai o blant ac wyrion aelodau ar y teithiau yma. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r wraig wadd am noson ddiddorol a'r holl luniau, gan Deborah Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Rita Jones ac Ann Davies ac fe'i enillwyd gan Odwyn Davies a Mair Spate. I ddiweddu y cyfarfod cawsom luniaeth ysgafn wedi ei roddi gan Deborah a Gwyneth Jones. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Pantri i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 20fed am 7.00y.h.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu mewn ysbytai yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Brysiwch wella a chroeso adref.

TAITH TRACTORAU PENCADER



Dydd Llun y Pasg
Ebrill 22ain 2019
Gadael Dolgran am 10.00yb.

Elw tuag at Ymchwil
Prifysgol Caerdydd tuag
at Multiple Sclerosis

Manylion pellach oddiwrth
Tom Lewis 01559 384279

MERCHED Y WAWR PENCADER A'R CYLCH



mewn Te Prynhawn,
Arddangosfa ac Adloniant
yn Neuadd yr Ysgol
Llanfihangel-ar-Arth

Sadwrn, Ebrill 13eg am 3 o'r gloch

Tocyn £10 Oddiwrth Marina Davies 01559 384252
neu Ann Phillips 01559 384558

Elw tuag at Brosiect Miwsig Merched y Wawr a
Chanolfan Dementia Prifysgol Cymru



Ysgol Y Dderi



Fel rhan o'u thema "Eisteddfod! Eisteddfod!" daeth Yr Arglwydd Rhys o gwmni Mewn Cymeriad i ddiddanu disgyblion blwyddyn 3 a 4. Roedd y sioe hanesyddol yn llawn gwybodaeth a ffeithiau diddorol tu hwnt. Bant â nhw y diwrnod wedyn i Gastell Aberteifi ble cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn 1176 gan Yr Arglwydd Rhys. Cafwyd diwrnod arbennig iawn.

Diolch i PC Hannah am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy "Ffrind neu Elyn" ym mlwyddyn 3 a 4 ac "E-ddiogelwch" gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Rhannwyd negeseuon pwysig iawn er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

Daeth Bethan Evans Phillips i fewn i'r ysgol i siarad â phlant yr ysgol i gynnal arolwg ar gynllun Ysgolion Eco. Llwyddodd yr ysgol i ennill y wobwr platinwm nifer o flynyddoedd nôl a braf yw nodi fod Mrs Phillips o'r farn fod yr ysgol yn llawn haeddu cadw ei statws platinwm. Da iawn chi blant.



Llongyfarchiadau mawr i ti Rhun ar lwyddo i ennill rownd yr ysgol ac i ddod yn ail yn y rownd gyn-derfynol dros Geredigion yng nghystadleuaeth Cogurdd eleni.

Rydym yn falch iawn ohonot. Diolch yn fawr iawn i Miss Jen am ei hyfforddi ac am gynnal Clwb Coginio yn yr ysgol bob nos Lun i holl blant blwyddyn 6.



Aeth tîm o blant i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnamaint Rygbi Tag Urdd Ceredigion yn Aberaeron yn ddiweddar. Ennill dwy a cholli dwy bu eu hanes a chawson nhw ddiwrnod llawn hwyl a chyffro. Da iawn chi.

Uchafbwynt thema "Tuduriaid Trafferthus" blwyddyn 5 a 6 oedd ail greu erlyniad Anne Boleyn, un o wragedd llai ffodus Harri'r VIII! Daeth pawb



Gwahoddwyd yr ysgol i gynnal gweithdai yng nghynhadledd Arloesi'r Cwricwlwm gan Estyn yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd. Roedd Mrs Heini a Miss Lilian yn falch iawn i gael help Dion, Andrew, Bleddyn, Betrys a Zöe ar y diwrnod ac roedd pawb wedi rhoi o'u gorau yn y cyflwyniadau ac wrth ateb cwestiynau gan benaethiaid De Cymru. Da iawn chi.



i'r ysgol mewn gwisgoedd Tuduraidd a thrawsnewidiwyd neuadd yr ysgol i edrych fel y King's Hall yn Llundain. Zoë chwaraeodd ran Anne Boleyn a chafwyd y cyfle i ail fyw holl helyntion yr erlyniad o flaen rheithgor. I orffen y diwrnod, perfformiodd y plant ddawns Tuduraidd yn llawn urddas mewn gwledd grand.

Uchafbwynt thema "Gwibio'r Glôb" oedd dathlu diwrnod gwledydd y byd yn y Cyfnod Sylfaen. Buom yn coginio bisgedi o'r Ariannin, creu llusernau Tsieineaidd, edrych ar fwydydd amrywiol a bwyta bisgedi lwc dda. Cafwyd diwrnod i'r brenin!

Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm ar ddiwrnod olaf yr hanner tymor wrth i ni gynnal Eisteddfod yr ysgol eleni. Y canlyniad terfynol oedd Teifi, Aeron a Dulas. Diolch i Miss Eirwen James am feirniadu ac i Eurios Jones am gynorthwyo. Enillwyd y tlws am y gantores orau gan Betrys Llwyd Dafydd, y darian am y marciau uchaf yn y cyfnod sylfaen gan Carys Green, a'r darian am y marciau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 gan Beca Ebenezer. Diolch i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 am gymryd y cyfrifoldeb o gynnal y seremoni cadeirio, a llongyfarchiadau i Beca Ebenezer am ennill y gadair. Dyma'r gerdd;

Seren

Ar noson dywyll fel heno
Â chrafangau du yn cysuro fy nagrau
Mi welais un seren ddisglair
Y seren sydd gen i ym mhobman.

Llusern, loyw lân,
Yn goleuo fy llwybr trwy'r byd,
Mae hi gyda fi yn y parc
Yn yr ysgol ac adre yn fy 'stafell.

Seren ddisglair, arbennig i mi,
Tadcu yw fy seren,
Sy'n gwarchod, sy'n gofalu, sy'n gwylio
Yn flanced gynnes, glyd
Ar noson oer fel heno.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Sir Gâr

Cadi Fflur Evans o glwb Penybont wnaeth dderbyn yr anrhydedd o fod yn Aelod Iau C.Ff.I Sir Gâr am 2018/19. Mae Cadi wedi cystadlu mewn amrywiaeth helaeth o gystadlaethau gyda C.Ff.I Penybont dros y flwyddyn diwethaf ac un o'i heiliadau mwyaf balch yn y C.Ff.I hyd yn hyn yw cynrychioli Sir Gâr yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd Cymru gyda'i chwiorydd, Delun a Mared.

Aeth y teitl Aelod Hŷn y Flwyddyn i Ffion Medi Rees o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanfynydd. Mae Ffion wedi bod yn Aelod gweithgar gyda'i chlwb gan ddal sawl swydd o fewn y Clwb, yn cynnwys bod yn Ysgrifenyddes ar dri achlysur ac yn Gadeiryddes. Mae Ffion hefyd yn Aelod o Bwyllgor Cystadlaethau Cymru ac yn Gyn-Lysgenhades y Sir.

Pob lwc i'r ddwy ar lefel Cymru ac am y flwyddyn sydd i ddod.

Yng Nghystadleuaeth y Cais am Swydd, Angharad Thomas o Glwb Dyffryn Tywi ddaeth i'r brig. Mae Angharad wedi bod yn Ysgrifenyddes y clwb ddwy flynedd yn olynol dros dathliadau 75 mlywyddiant y clwb, a hi yw Is-Gadeirydd presennol y clwb. Pob lwc iddi hi hefyd ar lefel Cymru.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Adloniant Cymraeg a Saesneg C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd y Gwendraeth yn ddiweddar. Bu tair noson o gystadlu brwd gydag un Clwb yn cystadlu yn yr Adloniant Saesneg a naw Clwb yn yr Adloniant Cymraeg.

C.Ff.I Llanymddyfri aeth â'r cwpan yn yr adran Saesneg gyda'u perfformiad o "Let's talk...Later!".



Yn yr Adran Gymraeg, C.Ff.I Penybont daeth i'r brig gyda'u perfformiad o "Yma i Aros", gyda C.Ff.I Dyffryn Cothi yn ail, a C.Ff.I Capel Iwan yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r holl Glybiau am berfformiadau gwych.

Fe aeth y gwobrau am yr unigolion gorau yn yr Adran Gymraeg a'r Saesneg i'r canlynol:



Perfformiwr gorau 18 oed neu iau: Gilbert Roberts, C.Ff.I Penybont
Perfformwraig orau 18 oed neu iau: Lowri Voyle, C.Ff.I Llanddarog
Perfformiwr gorau 26 oed neu iau: Deian Thomas ac Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi. *[Mae Deian yn absennol o'r llun uchod]*

Perfformwraig orau 26 oed neu iau: Caryl Hâf Evans, C.Ff.I Dyffryn Cothi

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

7						
8		9			6	7 5
				4 8		6
	6				7	
9 7		8 2 5			4 6	
		3			7	
9		1 8				
2 1 9				5		8
						1

Swdocw Chwefror

Llongyfarchiadau i:

Glenys Davies,
Llanybydder,

a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Cwmann; Brynmor James, Llanbed; Augusta Davies, Llanbed; Sian Blake, Gorsgoch; Eurwyn Davies, Llanybydder; Richard Evans, Olmarch; Bethan Williams, Llanybydder a Joan Stacey, Ffaldybrenin.

3	2	9	1	5	4	8	6	7
4	8	5	6	2	7	3	1	9
6	7	1	8	9	3	4	5	2
8	6	2	5	1	9	7	4	3
5	4	7	2	3	8	6	9	1
9	1	3	4	7	6	2	8	5
1	5	4	7	6	2	9	3	8
2	3	6	9	8	5	1	7	4
7	9	8	3	4	1	5	2	6

Cynhyrchydd Gorau: Buddug James Rees, Indeg Jameson, Mared Evans a Sioned Page-Jones, C.Ff.I Penybont

Fe fydd C.Ff.I Llanymddyfri a Phenybont yn cynrychioli Sir Gâr yn rownd derfynol y gystadleuaeth Adloniant ar lefel Cymru yn y Drenwydd. Pob lwc iddynt.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n beirniad, sef Mr Terwyn Davies, am ei waith yn ystod yr wythnos. Diolch hefyd i bawb fuodd yn cynorthwyo yn ystod yr wythnos a diolch arbennig i Dafydd Lloyd George a Nia Thomas a fu'n gweithio'n ddiwyd wrth y golau a'r sain. Diolch arbennig hefyd i bawb a fuodd yn helpu gyda'r parcio, yn y drws, gwerthu raffl a Swyddogion y Sir am fod yng ngofal y siop yn ogystal â chyflwyno'r dair noson.

Ni fyddai'r wythnos wedi bod yn bosib heb ein noddwyr sef Cyngor Sir Gaerfyrddin ac Addysg Seren, ac Undeb Amaethwyr Cymru am noddî'r gwobrau.

Cronfa Leol 2020

Fe lwyddodd pobl Llanwenog a Llanwnnen i godi cannoedd o bunnoedd at gronfa Eisteddfod 2020 – a chreu hanes hefyd.

Nos Sadwrn, Chwefror 2il yn Neuadd Gorsgoch, cynhaliwyd y Stomp a Romp cynta' yn hanes y byd, gyda wyth o feirdd yn darllen cerddi a chymryd rhan mewn gêmâu barddonol.



Y disgwyl yw y bydd y noson wedi codi tua £1,000 at gronfa'r ddau blwyf, gyda mwy na 100 o docynnau wedi eu gwerthu ar gyfer yr adloniant a chaws a gwin.

Llwyddodd y bardd Dai Rees Davies hefyd i greu hanes trwy ennill pleidlais y bobl am gerdd

fwya' poblogaidd y noson a chael gwobr o gadair – nid stôl i eistedd arni ond fersiwn defnydd o gadair buwch.

Ef a gweddill tîm Ceredigion – Endaf Griffiths, Hywel Griffiths a Megan Lewis – oedd yr enillwyr yn erbyn tîm Gweddill y Byd – Tudur Dylan Jones, Heiddwen Tomos, Rhys Iorwerth ac Eurig Salisbury.

Roedd y gynulleidfa ei hun yn rhan fawr o'r noson gan bleidleisio i ddewis pa gerddi oedd orau a phwy oedd yn ennill rhai o'r tasgau – roedd y rheiny'n cynnwys chwilio odlau, cysylltu geiriau a pherfformio 'charades' gyda theitlau cerddi adnabyddus.

Roedd yna gystadlu brwd rhwng y gwahanol fyrddau hefyd ar gystadleuaeth i orffen limrig. Yn y diwedd, Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, Elin Jones o Lanwnnen, oedd yr enillydd.

Dyma sut yr atebodd hi'r ddwy linell gynta' ...

Yn y nef, yr oedd Pedr yn gwyllo

Rhag i bobl anaddas fynd yno;

O Gorsgoch a Chwrtnewy'

Doedd neb digon teidi;

Llanwnnen – bob un yn mynd trwyddo!



Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulleidfda dda i gyfarfod mis Chwefror gan y Cadeirydd, Selwyn Walters, a chyflwynodd y siaradwr gwadd, Ross Cook, sydd yn rhedeg ymgynghoriaeth ar wasanaethau archaeolegol a threftadaeth. Thema'r noson oedd 'Hanes mewn Cartrefi: datblygiad a dyddio tai.'

Gwelwyd nifer o luniau yn dangos ystod eang o fathau gwahanol o dai, gan ddechrau gyda'r Tŷ Neuadd canol-oesol â than yng nghanol y llawr. Dangosodd lun o dŷ a adeiladwyd yn Swydd Rhydychen ym 1335, sy'n dal i fod yn gartref i deulu heddiw. Aeth ymlaen i ddisgrifio'r math o dŷ a ddilynodd y canol-oesoedd, gyda mwy o ystafelloedd a thanau i'w gynhesu. Tua 1590 ymlaen, gwelwyd newid eto yng nghynllun y tai yng nghyfnod y dad-eni, y mwyaf amlwg oedd symud y lle tân i dalcen y tŷ. Erbyn y ddeunawfed ganrif daeth y steil mwy modern i fod – y llofft yn fwy, a landin yn gwahanu'r ystafelloedd gwely, - ac ambell i dŷ'n cynnwys lle ymolchi.

Diolchwyd yn gynnes i Ross am ei ddarlith, a bu nifer o gwestiynau ar ddiwedd y noson, a'r gynulleidfda yn dangos eu gwerthfawrogiad.

Bydd cyfarfod mis Mawrth, ar y 19eg o'r mis, eto yn Hen Neuadd y Coleg am 7.30yh, pan fydd Mr. Lloyd Jones, Ystrad Dewi, yn rhoi hanes Llanio a'r Ffatri Laeth. Hon fydd y ddarlith flynyddol Gymraeg, a cheir gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Cinio Llanbed

Daeth nifer dda o aelodau Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan ynghyd unwaith eto yng Nghlwb Rygbi'r dref ar nos Iau'r 7fed o Chwefror. Pleser y Llywydd, Mr Eifion Williams y tro hwn, oedd croesawu Mr Michael Morgan, Felinfach - cymeriad adnabyddus i'r mwyafrif ohonynt - fel gwestai arbennig y noson a chafwyd mwynhad arbennig wrth wrando ar ei gyflwyniad ar "Hanes y Diwydiant Llaeth yng Ngheredigion."

Yn frodor o Fwlchllan, aeth Michael i Ysgol Gynradd Llangeitho ac yna Ysgol Uwchradd Tregaron, cyn mynd ymlaen i ennill cymwysterau ym meysydd cymorth cyntaf a hylendid bwyd, ac yn hwyrach fe dderbyniodd ddiploma "Quality Control in Manufacturing" yng Ngwlad yr Haf. Y mae ei bresenoldeb dros y blynyddoedd, ar ran Ambiwlans Sant Ioan, ym mhob achlysur chwaraeon neu debyg yng nghyffiniau Llanbed yn ddigon hysbys, ond ei brofiad o weithio yn ffatri laeth Felinfach o 1965 tan ei chau yn 1988, ac yna yn hufenfa Llangadog hyd at 2005, oedd deunydd ei annerchiad. Yr

oedd ganddo drysorau perthnasol i'w harddangos hefyd - yn bennaf casgliad sylweddol o ffotograffau a fyddai gweinyddwyr y Bwrdd Marchnata Llaeth wedi eu gwaredu oni bai i Michael gymryd meddiant ohonynt wrth i'r ffatri gau. Maent yn record unigryw o fywyd ffatri Felinfach a'r drafnidiaeth rheilffordd a lori fu'n ei gwasanaethu hi a'r ffatri laeth gyfagos yn Llanio, o gyfnod y "churn" laeth i gyfnod y tanceri. Yn eu plith yr oedd lluniau o'r gweithlu, cymeriadau o hoffus goffadwriaeth i aelodau'r Cylch mewn sawl achos. Fe achubodd beth enghreifftiau o offer y ffatri hefyd - ambell i declun hidlo ("separator") ac ambell un o'r 17,000 o "churns" aeth i'r iard sgrap. Er i'r Bwrdd ei wobrwyo â gwyliau yn Ynysoedd yr Orkney, fel gweithiwr y flwyddyn ar un achlysur, clywyd ganddo iddo gywiro cynrychiolydd y Bwrdd wrth ffarwelio â'r ffatri am y tro olaf, gan roi gwybod iddo mai ffermwyr Ceredigion, nid y Bwrdd, oedd mewn gwirionedd wedi 'edrych ar ei ôl.'

Cafwyd tipyn o hanes Hufenfa Llangadog hefyd, sydd bellach yn cynhyrchu bwyd cŵn a chathod, a chan mai tuniau pwddin reis oedd ei phrif gynnyrch tra bu'n gweithio yno, yr oedd Michael yn dawel ddiolchgar nad oedd y wledd ardderchog, a baratowyd gan Gegin Gwenog yn y Clwb Rygbi ar y noson hon, yn cynnwys yr eitem honno.

Cyn i'r Llywydd ddod â'r noson i ben, rhoddwyd gair o ddiolch i Mr Morgan gan un o amaethwyr blaenllaw'r ardal, Mr John Davies, Tynlofft, am noson ddiddorol a oedd yn dwyn llawer o olygfeydd a digwyddiadau bore oes i'w gof yng nghyd-destun y diwydiant laeth.

Gwahoddir gwragedd a chyfeillion yr aelodau i gyfarfod Noson Gŵyl Dewi'r Cylch, ar nos Iau'r 7fed o Fawrth yng Nghlwb Rygbi'r dref, pan groesawir Côr Seingar i ddod â thymor y Cylch i ben.


Cymdeithas Ddiwylliannol Shiloh a Soar

Cynhaliwyd dau gyfarfod hynod lwyddiannus o dan nawdd y Gymdeithas uchod. Ar brynhawn Iau, Ionawr 24 'roedd y cyfarfod yng ngofal y ffotograffydd profiadol Tim Jones, a'r testun dan sylw oedd "Cwis ar Lun". Gwelwyd nifer o luniau o bell ac agos a llawer un o'r aelodau yn chwilio am ffrind er mwyn dyfalu yr ateb cywir!! Cafwyd llawer o hwyl ac roedd ansawdd y lluniau yn adlewyrchiad o ddawn Tim fel ffotograffydd. Diolchodd y Llywydd, Huw Jenkins, i Tim am baratoi'r cwis ac am orig ddiddorol ac addysgiadol.

Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Gymdeithas drefnu ffilmiau o waith ymchwil amhrisiadwy Bethan

Phillips. Ar brynhawn Iau Chwefror 7, 'roedd y festri yn llawn wrth i ni ail brofi dau o lofruddiaethau erchyll yng ngogledd Sir Gaerfyrddin yn ystod y ganrif ddiwethaf, sef hanes y mab ansefydlog ym Mlaenllysgog Cwrtycadno yn llofruddio y meddyg teulu, ac yn Llwyntwyll Llansadwrn lle llofruddiwyd perchen y ffarm gan un o'r gweithiwr yn dilyn ei ymddygiad erchyll. Diolchodd Twynog Davies yn gynnes iawn i John Phillips am drefnu'r cyfarfod ac am barhau i ddod â gwaith Bethan yn fyw i ni, â phawb ohonom yn cofio'n dyner amdani yn ei gwaeledd yng Nghartref Blaenos, Llanymddyfri. Braf oedd cael cefnogaeth mor deilwng i'r ddau gyfarfod.

Cofio Dias



Yn ystod mis Mawrth bydd Margery Williams a'i meibion yn cerdded 70 milltir i nodi beth fyddai pen-blwydd ei diweddar ŵr Dias yn 70 oed ac i godi arian i elusen Macmillan Cancer Support. Fel rhan o'r 70 milltir byddant yn ymweld â Chlybiau Pêl-droed y bu Dias yn chwarae drostynt.

Yn y llun gweler Margery yn dal y bêl a ddefnyddiwyd yn y gêm bêl-droed rhwng Aberystwyth a Llandrindod, pan sgoriodd Dias 11 gôl. Llofnodwyd y bêl gan yr holl chwaraewyr wedi'r gêm.

Cronfa leol Llanbed, Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

Mae'r arian yn crynhoi yn dda a chawsom noson fendigedig yn y Shapla fis Chwefror. Diolch i bawb am gefnogi.

Cafwyd cyfarfod da o bwyllgor y gronfa ar Chwefror 25 a syniadau lu am weithgareddau yn y misoedd nesaf.

Dyma'r ddau ddigwyddiad nesa: Cynhelir Noson Gwis ar nos Wener, 22ain o fis Mawrth, yn Llain y Castell, Heol y Bryn. Dewch â thîm o'ch cymdeithas/clwb i gystadlu a chael hwyl. Y pris fydd £20 y tîm. Cysylltwch â Carys D neu Carys Ll-J am fwy o wybodaeth - 077913 37891 neu 07976 645957. Diolch i Meryl Thomas, clerc y dref am lunio'r cwis ac i Julian Evans fydd yn gwis feistr. Diolch hefyd i Mavis o Lain y Castell am

ddarparu'r ystafell.

Cynhelir taith gerdded nodedig ar ddydd Sadwrn, 27 Ebrill, a fydd yn cael ei arwain gan Debbie White a Bethan, o Gerddwyr Tregaron, o fewn Coedwig Longwood. Dechreuir am 1 o'r gloch o Glwb Rygbi Llanbed, a byddai'n braf gweld teuluoedd yn dod i ymuno â ni. Bydd cliwiau yn cael eu gosod ar hyd y daith hefyd, i'r plant eu datrys. Cysylltwch â'r ysgrifenyddion i gael ffurflen noddi a gwisgwch 'sgidiau cerdded neu 'sgidiau addas!

Urdd y Benywod

Yn ein cyfarfod fis Tachwedd, bu Meinir Evans yn dangos i'r aelodau sut i wneud plethdorchau ar gyfer y Nadolig. Roedd hi wedi casglu pob math o wyrddni o'r ffriddoedd a'r caeau ac yn ychwanegu pethau tlws atynt. Gydag amynedd ac arbenigedd dangosodd i ni sut i wneud hynny. Roedd hefyd wedi dod â danteithion melys i ni fwynhau gyda'r te a baratowyd gan Dilwen, Morfudd ac Elma.

Ym mis Ionawr, cafwyd crynodeb o hanes y plasdai a arferai fod yn ardal Llambled. Maent oll ond un wedi eu dymchwel erbyn hyn, a'r gred oedd mai melltith y Ficer Pritchard o Lanymddyfri oedd yn gyfrifol am hyn. Roedd gan bawb gof am yr hanesion, yn enwedig y stori am Sion Philip yn cael ei grogi ar gam am fod Herbert Lloyd am berchnogi ei gae ger Ffynnonbedr.

Gydag amser daeth Plas Falcondale yn westy ond cyn hynny roedd tre Llambled wedi gwella a thyfu o ganlyniad i waith dyngarol y teulu Harford.

Diolchwyd i Gwenda gan Aerwen. Eryl, Pat a Debra oedd yn gyfrifol am baratoi lluniaueth.

Ar nos Iau y 24ain o Ionawr cawsom ein cinio blynyddol yn y Pantri pan gafwyd gwledd arbennig o flasus fel sydd yn arferol gan Delyth. Cyflwynwyd ein gwraig wadd, Eirios Thomas, gan Maureen Evans, ein Llywydd. Mae Eirios Thomas o Lanfynydd, yn ferch o Gwmann a bu'n drefnydd Mudiad y Ffermwyr Ifanc Sir Gâr am ddeugain mlynedd. Un o'i llwyddiannau mawr oedd sicrhau'r defnydd o'r Gymraeg yng nghlybiau'r Sir yn ystod ei hamser fel trefnydd. Roedd ei hanerchiad yn llawn hanesion diddan, megis pan soniodd am y tro y bu gofyn iddi wnïo botwm ar grys y Tywysog Charles yn ystod ei ymweliad â'r fferm. Roedd yn falch hefyd fod Côr Ffermwyr Ifanc Sir Gâr wedi canu yn Noson Lawen Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Llanelli, a gwneud hynny gyda graen. Gallem fod wedi gwrandao arni am awr arall yn rhwydd gan fod ganddi ddawn arbennig o gyflwyno'r hanesion. Mae'n sicr ei bod wedi haeddu'r MBE a gafodd am ei

Llanbedr Pont Steffan

gwaith clodfawr yn Sir Gâr.

Talwyd y diolchiadau gan ein Is-Lywydd, Jennie Bracher. Enillwyd y gwobrau raffl gan Dilwen, Gwenda, Eirios a Debra.

Sefydliad Prydeinig y Galon

– Cangen Llanybydder a Llamed

Ar y 15fed o Chwefror cafwyd noson arbennig ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yn ein diddanu 'roedd Côr Cardi-Gân o ardal Dyffryn Aeron. Roedd y côr yn wych o dan arweiniad Rhian Dafydd, a phawb oedd yno wedi mwynhau. Roedd y bwyd yn ardderchog, a diolch am noson arbennig.

Llywydd y noson oedd Mr Andrew Morgan, a oedd yn methu bod yn bresennol, ond diolch iddo am ei rodd arbennig o hael.

Talwyd y diolchiadau gan y Cyng. Ieuan Davies.

Mae'r cyfarfod nesaf ar y 26ain o Fawrth yng Nghapel Sant Thomas am 7.00y.h. Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni.

Murlun Gŵyl Dewi Llanbed

Mae'r murlun bellach lan ar wal W.D Lewis a'i fab, ac fe hoffen ni aelodau'r Pwyllgor Gŵyl Dewi, ddiolch i'n noddwyr am eu cefnogaeth. Cafodd y plant o bedair ysgol leol brofiad amhrisiadwy wrth gydweithio gyda Rhiannon Roberts, yr artist talentog, gan greu gwaith trawiadol.

Diolch i Jewson's am eu rhodd o bren ac i Steve Edwards, Emyr Jones, Martin Owens, Gwynfor a Dylan Lewis am ei osod ar y wal.

Y noddwyr oedd y Cyngor Tref, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, LAS, Morgan & Davies, W.D Lewis a'i fab, Clwb Rotari, Clwb Cinio, Evans Bros ac Eryl Jones Yswiriant.

Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes gan Elin, ein llywydd i lu o ddysgwyr oedd wedi ymuno â ni am noson o gymdeithasu ac arlunio. Cyn cychwyn y noson trafodwyd rhai dyddiadau pwysig i'w cofio. Ar Fawrth 4ydd mae Parêd yn Llanbed, lle byddwn yn codi arian at Eisteddfod 2020 Ceredigion. Ar Mawrth 6ed rydym yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda chawl yn y Pantri gyda Delyth am hanner awr wedi pedwar â'r gost yn £11.50, ac ar y 6ed o Ebrill mae cwrs crefft y De yn cael ei gynnal yn Nhy Glyn Aeron o 10 y.b. hyd 4 y.p. Mae cinio llywydd y De eleni yng Ngwesty'r Cliff, Gwbart ger Aberteifi, ar Mawrth 16eg, gyda bws i'w drefnu.

Yna cyflwynodd Elin y noson i Aerwen. Noson i ymlacio, joio a chymdeithasu tra yn dysgu rhai sgiliau. Defnyddio gwahanol bensilau oedd y bwriad, H.B.--6 B i greu tonau o lwyd. Y wers gyntaf

oedd llanw y pump blwch oedd ar eu papur gyda'r tonau yma o wyn i ddu.

Er mwyn rhoi hyder i rai oedd ddim wedi gwneud unrhyw arlunio ers amser ysgol dangosodd Aerwen beth o waith ei thad. Dechreuodd ef arlunio pan yn 80 oed ar ôl colli ei mam, a chael llawer o bleser wrth wneud hynny.

Yr ail ran o'r wers oedd defnyddio eu sgiliau i arlunio y pethau oedd o'u blaen e.e.winwnsyn coch wedi ei dorri yn ei hanner, tomato wedi ei dorri, ffosilau, penglogau anifeiliaid, cactai a gwahanol ffrwythau. Siaradodd am y sgiliau o edrych drosodd a throsodd, ac edrych yn ofalus am y rhannau golau, ble oedd y cysgodion er mwyn rhoi tonau yn eu llun a gallu eu dehongli ar bapur. Soniodd hefyd am faint y llun, dim llai mewn maint na'u dwrn.

Cafwyd noson o weithio dyfal gyda llawer o siarad a thrafod. Ar ôl mynd o amgylch a chynnig tipyn bach o gyngor fan hyn a fan draw, roedd yn wir syndod i weld y gwaith arbennig gafodd eu greu. Gwnaethpwyd arddangosfa o'r gwaith a thra fu pawb yn cael diod a bwyd blasus iawn wedi eu baratoi gan y pwyllgor, cafodd pawb gyfle i edrych ar waith ei gilydd. Noson hapus, gyda llawer wedi aildarganfod sgiliau y byddant yn para i'w defnyddio yn bellach ar ben eu hunain neu efallau trwy ymuno â dosbarth arlunio. Diolch i Mrs Ann Davies, Olmarch am ei chymorth ac i bawb arall a fu yn helpu. Diolchodd Rajesh David ar ran y dysgwyr am y croeso cynnes, am y cyfle i ddysgu sgiliau arlunio trwy noson o gymdeithasu ac am luniaeth mor flasus.

Clwb Bowlio Llamed

Llongyfarchiadau i Melanie Thomas ac Anwen Butten, o Glwb Bowlio Llamed, sydd wedi cael eu dewis i gystadlu yng Ngemau'r Iwerydd. Mae'r tîm yn cynnwys pump o fenywod a phump o ddynion ar draws Cymru. Dyma'r pedwerydd tro i Anwen gael ei dewis, y tro cyntaf oedd nôl yn 2005. Fe fydd Melanie, o Gwmsychbant, yn rhan o'r tîm am y tro cyntaf. Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn clybiau ar draws Caerdydd ym mis Mai, a dyma'r tro cyntaf ers 1997 i ddigwyddiad bowlio mor fawr ddod i Gymru. Mae Gemau'r Iwerydd yn digwydd bob pedair blynedd, efo cystadlu yn digwydd dros ddwy wythnos, gydag Anwen a Melanie yn cystadlu yn y 'Triples' a 'Rinks'.

Diolch

Yn dilyn neges o ddiolch gan Keri Davies, Dyffryn, Cae Dash, Llamed, y mis diwethaf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn ystod ei brofedigaeth

o golli ei wraig yn ddiweddar, hoffai ddiolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Alzheimers Cymru a Ward Ystwyth, Ysbyty Bronglais, Aberystwyth er cof am ei wraig. Mae cyfanswm o £1000 wedi'i gasglu ac mae'r ddau achos bellach wedi derbyn £500 yr un. Diolch hefyd i Gwilym Price a'r criw am y modd yn gwnaethant eu dyletswyddau.

Cydymdeimlo

Daeth ton arall o dristwch dros Llanbedr Pont Steffan ar ddiwedd mis Chwefror pan glywyd am farwolaeth Mary Jones, Landre, Stryd y Bont, a hynny cwta misoedd ar ôl colli ei phriod Gerwyn. Roedd Mary yn adnabyddus iawn i bawb ac roedd ei diddordeb ym myd y gân yn enfawr ac yr oedd hi bob amser yn cefnogi'r diwylliant Cymreig yn ein hardaloedd. Hi oedd ysgrifenyddes Cerdd Eisteddfod Rhys Thomas James, Llamed tan mis Awst diwethaf ac roedd yn ddiacones ac organyddes Capel Soar tan ei marwolaeth.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Dorian, Rhian, Lowri a Tomos yn Llamed gyda Delyth ac Iwan lawr yng Nghaerdydd a gyda'r cysylltiadau teuluol i gyd yn eu colled.

Bu'r angladd yn Nghapel Soar ac yna daearwyd ei gweddillion yng Nghapel yr Erw, Cellan.

Ddiwedd y mis, daeth tristwch i ardal Llanddewi Brefi pan glywyd am farwolaeth sydyn Emma Williams, Garth. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'i chwaer Mair, John, David, Meinir a Sioned, Nantgwyn,

Heol Llanfair yn eu colled o golli chwaer a modryb annwyl.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Crynwyr

Mae Crynwyr Llanbedr yn cwrdd bob dydd Sul am 10.45yb yng Nghanolfan Steffan, Rhodfa Peterwell ac ar nos Fawrth olaf y mis (yn dechrau 26ain Chwefror) am 7.30yh, mewn cartrefi lleol. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch am fanylion a chyfeiriadau: 01570 471488 lizmed12@gmail.com Nid yw Liz yn siarad Cymraeg.

Oedfa'r Ifanc

Cynhelir Oedfa arbennig yn Noddfa nos Sul 7 Ebrill am 5 o'r gloch gyda'r plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Aelwyd nos Fawrth 12 Chwefror yn Ysgol Bro Pedr. Atgoffodd Janet yr aelodau am ddyddiad cau derbyn enwau cystadleuwyr ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Treuliwyd noson egniol yn llawn hwyl yng nghwmni Lleucu Aeron, gyda phawb yn ymuno mewn campau amrywiol ac ambell un yn gystadleuol iawn!! Roedd pawb wedi mwynhau a diolchodd Ifan i Lleucu am orig ddifyr iawn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth, sef noson yng ngofal Geinor Medi, ac ar 26 Mawrth disgwylir Elin i'n diddori. Croeso cynnes i aelodau newydd (a'r hen aelodau).



Mae Ffrindiau Gorsaf Ambiwllans Llanbed – yn cael eu cynrychioli yma gan Chris Thomas a Tony Cadman (ar y chwith) – wedi llwyddo i brynu offer hyfforddi yn ymwneud â'r Galon a'r System Anadlu, fel y gall staff yr orsaf eu defnyddio wrth iddynt barhau i ddysgu a hyfforddi i drin cleifion yn y gymuned. Rhoddion caredig sydd wedi gwneud hyn yn bosibl – trefnwyd Taith Dractorau gan Melvyn a Morfudd Rees, Garej Lllys y Wawr, Llanllwni, ac fe godwyd swm o £2,900. Rhannwyd yr arian rhwng Ffrindiau Gorsaf Ambiwllans Llanbed ac Uned Ymchwil Llid yr Ymennydd a Sepsis yn Ysbyty Glangwili. Hefyd cyfranodd Helena Jones £835, yr arian a dderbyniwyd er cof am ei diweddar ŵr, Picton Jones MBE. Gyda nhw yn y llun mae Lyndon Gregson, Ffion Rees a Huw Davies, Parafeddygon Llanbed.

Llanbedr Pont Steffan

Brondeifi

Ar y 10fed o Chwefror cafwyd oedfa yng ngofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Yna ar y Sul canlynol, Mrs Melda Grantham, Ysgrifennydd yr enwad, oedd yn y pulpod.



Ar y 24ain o Chwefror roedd blas Gŵyl Ddewi ar y gwasanaeth. Y Gweinidog Anrhydeddus, y Parch Goronwy Evans, fu'n cymryd y gwasanaeth, a bu'n sôn am bwysigrwydd "gwneud y pethau bychain", yng ngeiriau Dewi Sant. Bu'r plant canlynol yn cymryd rhan yn ogystal - Deina, Siôn a Rhys; Ifan, Elen a Marged; ac Erin ac Ifan.

Mae Ifan Jones (V&M) wedi ennill medal am y plentyn â'r pwyntiau uchaf yn ysgol Carreg Hirfaen yn y Cyfnod Sylfaen, a Deina Harri Evans yn ennill yng Nghyfnod Allweddol Dau. Cafodd Elen Medi lwyddiant, gan ennill y cwpan rhyddiaith Cymraeg yn Eisteddfod Bro Pedr. Mae Elen Medi hefyd wedi cael llwyddiant yng nghystadleuaeth Cogurdd Ysgol Bro Pedr, ac yna yn y Sir, a bydd hi'n cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd.

Athletau



Beca Roberts, disgybl yn Ysgol Bro Pedr sydd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru yn y Pencampwriaethau Athletau Dan Do Rhyngwladol i athletwyr dan 20 oed, yng Nghaerdydd ym mis Mawrth. Mae'r ysgol yn falch iawn ohoni ac yn dymuno pob lwc iddi.

Gwobrau Ffilm



Hoffai Gwobrau Ffilm a Theledu NYF groesawu Dinah Jones yn aelod o'r Prif Reithgor 2019. Dinah yw sylfaenydd Silin TV, - cwmni teledu annibynnol, egniol, sydd wedi ei leoli yng ngorllewin Cymru ac a enillodd Fedal Aur flwyddyn diwethaf.

Cwrw Cymreig ar gyfer achosion da!



Cynhaliwyd Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbedr am y pumed tro ar ddydd Sadwrn 16eg o Chwefror, ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Fel arfer, roedd yr ŵyl yn Neuadd y Celfyddydau, ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a chafodd ei threfnu gan Ford Gron Llanbedr Pont Steffan.

Bu'r aelodau yn brysur ers wythnosau yn paratoi ar gyfer yr ŵyl – dethol a phrynu cwrw a seidr Cymreig, trefnu adloniant a hyrwyddo'r digwyddiad. Roedd 24 cwrw a 22 seidr amrywiol o fragdai yn cynnwys Cwrw Llŷn (Nefyn), Bragdy Twt Lol (Trefforest), Bragdy Tenby Harbwr (Dinbych y Pysgod) a Bragdy Llew (Caernarfon). Daeth Seidr o nifer o gynhyrchwyr gan gynnwys Gethin's (yn wreiddiol o Llanbedr), Seidr y Mynydd a Gwynt y Ddraig.

Roedd ambell gwrw diddorol, gan gynnwys Marshmallow Porter a seidr cynnes. Roedd hefyd amrywiaeth o adloniant byw gan gynnwys Candy Mountain a Chariad.

Agorwyd yr ŵyl gan Faer y Dref, y Cyng. Ann Bowen Morgan, ac yfwyd dros 2,500 peint i gyd, gyda thros 500 o bobl yn dod i'r ŵyl. Daeth CAMRA Bae Ceredigion i redeg tombola a Bishop of Bedlam i gynnal gêm ddartiau.

Nod yr ŵyl yw hyrwyddo cwrw a seidr Cymreig, codi arian at achosion da a chynnig ychydig o hwyl yn y dref ar adeg oer a gwlyb. Roedd y cyfan i godi arian tuag at achosion da. Nid yw'r ffigyrau terfynol yn hysbys eto, ond eleni bydd yr arian yn mynd tuag at Mind Cymru a chronfa apêl lleol ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2020.

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi, ac i'r busnesau lleol oedd wedi noddi'r digwyddiad. Byddwn yn cymryd seibiant cyn dechrau trefniadau ar gyfer y chweched gŵyl yn 2020.

Mae'r Ford Gron yn glwb i ddynion ifanc ac rydym bob amser yn awyddus i gael aelodau newydd. Croeso i chi gysylltu â ni os oes diddordeb gyda chi i ymaelodi, trwy ein tudalen Facebook.



Cymdeithas Merlod a'r Cobiau Cymreig

Mewn cyfarfod diweddar o Gymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig, yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan, rhannwyd £1,000 – sef elw cyngerdd a drefnwyd gan y Gymdeithas ym mis Hydref yn Theatr Felinfach – rhwng Ambiwylans St. Johns a RABI.

Cyflwynodd Mary Jones, Llywydd y gyngerdd, £500 i Michael Morgan, Ambiwylans St. Johns a derbyniodd Euros Davies a Margaret Dalton £500 gan Elgan Evans, Cadeirydd.

Yn y llun mae (O'r chwith) - Lloyd Jones, Is-Lwydd; Mary Jones; Michael Morgan; Geraint Jones, Llywydd; Euros Davies; Catrin Reed, Ysgrifennydd; Elgan Evans a Margaret Dalton.





Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn yr wythnosau nesaf:

15fed Mawrth - A Star is Born - Hon yw'r bedwaredd fersiwn o'r stori fytholwyrdd yma, ac i fi, hon hefyd yw'r orau. Gan gadw at y plot nath wneud y ddwy ffilm ddiwetha' mor llwyddiannus, ma' gyda chi seren sydd wedi gweld dyddie gwell (Bradley Cooper) yn cefnogi, ac wedyn yn syrthio mewn cariad gyda talent ifanc di-brofiad (Lady Ga Ga). Ac wrth i'w seren hi godi, mae ei yrfa fe'n mynd o ddrwg i waeth. 'Odd hon yn un o'n hoff ffilmie i llynedd, ac er ma' Ga Ga sy'n câl pob clod...yn gwbwl haeddiannol; ma rhaid hefyd canmol Cooper, nid yn unig am ei berfformiad, ond am sgriptio a chyfarwyddo'r stori mewn ffordd naturiol, trawiadol a hollol wefreiddiol ar adegau. Ma'r 'cemeg' rhwng y ddau yn berffaith, a fan hyn ma' 'da chi ddau berson sydd ddim jyst yn syrthio mewn cariad gyda'i gilydd, ond yn syrthio mewn cariad gyda talent cerddorol ei gilydd. Ma'r trac sain, fel fydddech chi'n disgwyl, yn rhagorol, ac i fi, y gân Shallow, odd y diwn orau i fi glywed drwy gydol 2018. Bendant yn werth ei gweld; ac mae'n blethiad ardderchog o stori, actio, a cherddoriaeth.

29ain Mawrth - Bohemian Rhapsody - 'Odd 'istedd drwy Bohemian Rhapsody, llynedd, yn brofiad 'itha od. Fel ffilm, d'ym hi ddim yn rhywbeth sy'n dal at ei gilydd mor dda â hynny, ond fel emyn o fawl i Queen a'r diweddar Freddie Mercury, ma hon yn rhywbeth sbesial iawn. 'O'n i'n gallu anwybyddu'r gwendidau yn y sgript, y golygu, a natur braidd yn antiseptig y peth, achos ma'r prif berfformiad gan Rami Malek yn wirioneddol anhygoel. D'ym e ddim jyst yn actio Freddie; fe YW Freddie - a ma Gwilym Lee yn rôl Brian May, cystal pob tamaid; ond ddim yn câl yr un fath o sylw â Fred, wrth gwrs. Ma'r hiwmor yn gweithio'n dda, ond dewch i ni fod yn onest, y rheswm i weld hon yw'r gerddoriaeth. Ma' bron pob un o glasuron Queen yn troi lan yn ystod y ffilm, ac os nag y'ch chi'n ffindo'ch hunan yn tapo'ch traed rhywbryd yn ystod hon, ma rhywbeth mawr wedi mynd o'i le yn eich bywyd chi. Ddim yn ffilm i'r "purist" sinematig falle, ond os y'ch chi'n ffan o'r band a'i brif leisydd, ma hon yn gracyr, o'r dachre i'r diwedd.

12fed Ebrill - Peterloo - Wedi blynyddoedd o greu ffilmie bach, yn plethu comedi a drama, am bobol gyffredin yn byw yn y byd modern, nath Mike Leigh newid cyfeiriad yn rhyfeddol llynedd gyda Peterloo. 1819, ma'r rhyfel yn erbyn Napoleon drosodd, ac ma' 'na newyn erchyll wedi cydio ym Mhrydain. Ac yn ystod protest heddychlon yn ardal Peterloo, Manceinion, ma bobol yn begian am welliant i'w safonau byw. Mewn panic, ma'r awdurdau'n danfon y fyddin i fewn i'r ardal, a cyn pen dim ma'r brotest wedi troi'n lladdfa. Yn nwylo Ken Loach, mae'n bosib bydde Peterloo wedi gorffen fel campwaith gwleidyddol; ond d'ym Leigh ddim yn galler cydio yn yr un fath o ddicter sosialaidd fan hyn, ac ma'r stori'n teimlo'n braidd yn ddi-gyfeiriad. Wedi gweud hynny, mae e'n llwyddo i gâl perfformiade nerthol o'i gast (yn enwedig Rory Kinnear a Maxine Peak), ac yn dal i gynnig diweddglu pwerus, wrth i'r gwaed ddechrau llifo. Y gwendid arall yw bod na lawer gormod o gymeriadau'n rhan o'r stori, ac er bod y ffilm dros ddwy awr a hanner o hyd, mae dal yn teimlo'n rhy fishi ac yn dameidiog, wrth drial rhoi amser i bawb cael gweud eu storïau. Mae'n ymdrech ddewr i gofnodi achos mileinig yn hanes Prydain; ond d'ym hi ddim cweit yn cyraedd y nôd cystal a ddyle hi, falle.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Cerddwyr Cylch Teifi

13 Ebrill 2019 - Llanbedr Pont Steffan - Arweinydd: Gillian Jones

Taith gerdded yn ardal Llanbedr a chyfle i gael clonc yn Gymraeg ac i ymarfer gyda Dysgwyr yr iaith.

Byddwn yn gadael maes parcio Clwb Rygbi, Heol y Gogledd am 10:30.

Y Daith: Taith gylch tua 3 milltir ar dir gwastad gan orffen erbyn 1:00.

Gadael y maes parcio ar fin y dre a mynd trwy gampws y Brifysgol i'r llwybr at lannau Afon Teifi, cyn troi i'r gogledd ar draws caeau i gyrraedd y briffordd a strydoedd y dre sy'n arwain yn ôl i'r man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r daith ar lwybrau troed cadarn ond efallai bydd ychydig o fwd ar ôl glaw wrth goesi'r caeau.

Pwyntiau o ddiddordeb: Hanes (3 plasty, 3 afon, 3 addoldy) a byd natur.

Cwmsychpant

Ar wellhad

Gwellhad buan i Mari Rees, Maesllwyd, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili ar ddechrau'r mis. Erbyn hyn Mari rwyf nôl yn yr ysgol ac yn teimlo lawer yn well.

Hanner awr o adloniant y CFFI

Llongyfarchiadau mawr i holl ieuenctid yr ardal sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth flynyddol gyda'r CFFI, boed o Glwb Llanwenog neu Pontsian - prowdd iawn ohonoch i gyd.

Dathlu Gŵyl Ddewi - Ysgol Sul Capel y Cwm



Bore Sul, Mawrth 3ydd bu ieuenctid a phlant Ysgol Sul Capel y Cwm wrthi yn paratoi Cawl, pice ar y maen ac hefyd panews. Cafwyd hwyl wrth wneud popeth ac yna cynhaliwyd Oedfa Gŵyl Ddewi gyda'r plant yn cymryd rhan a'r Parch Wyn Thomas yn dweud gair ar y diwedd. Wrth yr organ bu Miss Einir Ryder ac roedd pob plentyn wedi gwisgo eu gwisg Gymreig. Yna trodd pawb mewn i'r Festri i gael cawl blasus iawn i ginio gyda'r pice bach a'r panews yn blasu'n fendigedig gyda'r paned te. Diolch i bawb am bob cymorth yn ystod y bore ac yn enwedig i Mrs Sirian Davies a'i mam Mrs Mary Jenkins am eu arweiniad yn ystod y coginio. Bore arall i'w gofio i ieuenctid a phlant Ysgol Sul Capel y Cwm.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



'Tyfu Canolbarth Cymru' yw'r fenter sydd yn cael ei rhedeg gan Gyngorau Sir Ceredigion a Phowys i fagu twf economaidd rhwng y ddwy ardal. Mae dau Gyngor Sir y canolbarth hefyd yn ceisio denu arian a buddsoddiad gan y Trysorlys a Llywodraeth Cymru wrth gydweithio.

Ychydig wythnosau yn ôl, teithiodd busnesau a sefydliadau Ceredigion, yn ogystal â swyddogion y Cyngor Sir i lawr i fae Caerdydd er mwyn mynychu digwyddiad hybu bargaen Twf y Canolbarth yn y Cynulliad.

Fe ddaeth y digwyddiad hwn â gymaint o wahanol sectorau sydd wedi eu lleoli yng Ngheredigion a Phowys ynghyd, er mwyn trafod y pwysigrwydd o weithio ar draws ffiniau siroedd.

Mae Ceredigion a'r canolbarth ehangach yn faes ffrwythlon i unrhyw un sy'n ystyried cychwyn busnes, neu adleoli yma. Mae gwaith yn ein prifysgolion yn arloesi mewn llawer o sectorau technolegol, ac mae cynnyrch lleol yn cael ei werthu o gwmpas y byd.

Mae llawer o wersi gall y Cyngorau Sir a busnesau ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac mae nifer o gyfleoedd i Geredigion a Phowys i gydweithio er mwyn rhannu syniadau a ffyniant. Roeddwn yn falch iawn i noddi'r digwyddiad trawsbleidiol yn y Cynulliad gydag Aelodau Cynulliad o Bowys, ac wedyn i gynnal cyfarfod gyda'r Gweinidog, Ken Skates.

Cefais gyfarfod arall yn ddiweddar gyda Thraws Link Cymru, y grŵp ymgyrchu lleol sydd wedi gwneud cymaint o waith i amlinellu posibiliadau ail-agor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Roedd y cyfarfod ar y cyd â swyddfa Ben Lake AS ac Adam Price a Jonathan Edwards, Aelodau Cynulliad a Seneddol Dwyrain Caerfyrddin.



Fe drafodom gyhoeddiad diweddar yr adroddiad dichonoldeb ar ail-agor y lein - sef adroddiad positif sy'n amlinellu bod y fenter yn dechnegol bosib.

Mae'r ffordd ymlaen yn glir a'r egni tu ôl y fenter yn cynyddu. Mae angen nawr perswadio dwy lywodraeth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan, i roi blaenoriaeth i ail-agor y lein ac i gomisiynu achos busnes drosto.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd – Cofio Cwrt

Os oes rhywun ar ôl sydd wedi archebu llyfr Cofio Cwrt ond heb ei gasglu, a oes modd ichi gysylltu gydag Elaine Davies ar 01570 480526? Mae eich copi yn aros amdanoch!

Cydymdeimlo

Cofiwn am Mrs Ray Evans ac Evan David, Brynhogfaen ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr yn ddiweddar sef Gwilym Evans o Aberaeron.

Sioe yn y Lyric Caerfyrddin

Yn ystod hanner tymor cymerodd Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu, ran gyda Carmarthen Youth Opera yn y Sioe Chitty, Chitty Bang Bang. Roedd 7 perfformiad gan yr ieuencid a hyfryd oedd gweld Ela a'i chyfnither Swyn, o Fro Mebyd,

Pencarreg ar y llwyfan mawr. Longyfarchiadau mawr i chi eich dwy.

Priodas

Ar ddydd Gŵyl Dewi priododd Eleri Davies, gynt o 4 Heol-y-Bryn, â Alex Rumsey ym Mournemouth. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Bessie Williams, Clyncoch, ben-blwydd ar ddechrau mis Mawrth. Iechyd da am flynyddoedd lawer.

Dydd Gweddi'r Byd

Cynhaliwyd oedfa yng Nghapel Seion ar Fawrth y cyntaf. Cymerwyd rhan gan aelodau eglwysi Llanllwni a Llanwenog ac aelodau o gapeli Brynteg, Drefach, Seion a Chapel Nonni. Cafwyd oedfa fendithiol iawn.



Cyngor Cymuned Llanybydder

Mae Mrs Pat Baker o Rhydcymerau wedi cael ei dewis i fod yn Gyngorwraig gan ein Cyngor (Rhydcymerau).

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Llew Du, Llanybydder ar ddydd Iau 14/2/19 am 10.00 y bore i drafod llifogydd yn y pentref oherwydd Storm Callum. Roedd Ruth Mullen o Gyngor Sir Gâr, Cyng. Ieuan Davies, Llanybydder, Dŵr Cymru, Yr Amgylchedd - afonydd, Cyng. Euros Davies, Rhodri Llwyd, Cyngor Ceredigion ac Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y cyfarfod.

Mae galwad yn y pentref am helpwyr di-dâl i gyd weithio gyda Go-Safe, ynglyn â gyrrwyr cyflym. Unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu â Chyngor Cymuned Llanybydder. Bu Mr John Williams o Go Safe yn ein cyfarfod diwethaf.

Rhoddwyd £100.00 i gôr Lleisiau'r Werin tuag at eu costau. Rhoddwyd £50.00 i Fenter Mynyddoedd Cambrian tuag at gostau'r map.

Mae'r toiledau ger Cross Hands, Llanybydder yn mynd i gael eu glanhau a'u peintio gan Paul Evans, Proclean.

Bu Kay Davies, Jason Lawday ac Ollie o Gerddwyr Cymru yn ein cyfarfod diwethaf i siarad am y fenter "Rights of Way Maintenance Initiative". Mae ymdrech i fod i sefydlu grŵp cerddwyr yn y pentref. Mae Kay Davies a phawb mor barod i helpu unrhywun.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cynhelir Taith Gerdded Noddedig y Plwyf eleni ar ddydd Sul, 28 Ebrill i ddechrau am 10yb o Ysgol Dyffryn Cledlyn. Cerddir rhai o lwybrau cyhoeddus y plwyf felly gwisgwch esgidiau addas. Bydd yn daith o ryw 5 milltir ac yn cynnwys pytau ar hanes lleol. Bydd yr elw yn mynd at Bwyllgor Apêl Llanwenog a Llanwnnen, Eisteddfod Ceredigion 2020. Darperir lluniaeth ysgafn i ddilyn. Ceir ffurflenni nawdd o'r Ysgol, Ciosg Cwrtnewydd, Drefach a Chwmsychpant, Eglwys Llanwenog neu gan y Clerc neu'r Cyngorwyr Cymuned.

Bydd hyfforddiant diffibrilwr a CPR yn cael ei drefnu yn ein cyfarfod nesaf ac yn cael ei gynnal yn Neuadd y Pentref, Drefach. Mae croeso i bawb i ddod rhag ofn y bydd angen i chi ddefnyddio'r peiriant rywbyrd. Cofiwch eu bod wedi eu gosod yng Nghiosg Coch Drefach, Cwmsychpant a Chwrtnewydd a thu allan i Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Edrychwch mas am y dyddiad ar ein gwefan:

www.cyngorllanwenogcouncil.org.uk



CEREDIGION WASPI
Women Against State Pension Injustice

MERCHED – WEDI'CH GENI YN Y 1950au? SICRHEWCH FOD EICH BARN YN CAEL EI GLYWED!

Gwnewch gwyn swyddogol am y blynyddoedd o Bensiwn y Wladwriaeth yr ydych wedi'u colli

Mae WASPI Ceredigion yn ymgyrchu dros gyflawnder i'r 5,000 o fenywod yng Ngheredigion a anwyd yn y 1950au sydd wedi colli hyd at chwe blynedd o Bensiwn y Wladwriaeth - dros £45,000 - heb fawr o rybudd, oherwydd Deddfau Pensiwn 1995 a 2011.

Rydym yn eich annog i wneud cwyn swyddogol. Mae'n ffordd dda o ddweud wrth y llywodraeth pa mor flin yr ydych a gall arwain at iawndal yn y pen draw. Os ganwyd chi yn y 1960au cynnar, mae'n werth gwneud cwyn hefyd.

Gallwch ddefnyddio ein llythyrau templed i wneud eich cwyn. Mae'r rhain ar gael ar wefan WASPI:

www.waspicampaign2018.co.uk/action

Os oes angen help arnoch i wneud hyn, neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â WASPI Ceredigion, trwy anfon neges e-bost at waspiceredigion@gmail.com, neu drwy ffonio Carys Lloyd ar ffôn swyddfa Ben Lake AS 01570 940 333. Neu ymunwch â'n grŵp Facebook: WASPI Ceredigion Supporters Facebook Group.

Cynhyrchwyd gan WASPI Ceredigion Chwefror 2019



Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Mae'r mis bach wedi bod yn un prysur iawn unwaith eto, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer fawr o weithgareddau. Ar ddechrau'r mis daeth y cwmni 'Walk through the Bible' i gyflwyno'r Hen Destament i flynyddoedd 5 a 6. Edrychwn ymlaen at eu gweld eto tymor nesaf lle byddant yn cyflwyno'r Testament Newydd.

Roedd yn ddiwrnod Diogelwch y Wê ar y 5ed o Chwefror a buodd y dosbarthiadau i gyd yn dysgu gwybodaeth bwysig wrth wrando ar storïau ac ymateb i gwestiynau diogelwch. Profiad arbennig i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 oedd cael bod yn rhan o gynllun y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ERW yng nghlwtwr Llanbed. O dan arweiniad Delor James, Heulyn Roderick ac Eryl Jones crëwyd rhaglen radio a ffilm diogelwch y wê, gyda chymeriad 'Dan Diogel' yn hedfan i achub y dydd wrth addysgu'r plant sut i fod yn ddiogel ar y wê. Braf oedd cael rhannu'r gwaith caled yma gyda gweddill yr ysgol yn y Neuadd gan gynnwys cyflwyniadau pwerbwyt diogelwch y we disgyblion blynyddoedd 5 a 6. Gan ddilyn neges Kirsty Williams, bod trosglwyddo gwybodaeth gan ddisgyblion i ddisgyblion wedi sicrhau bod pob un plentyn wedi deall prif negeseuon diogelwch y dydd. Roedd hyd yn oed plant lleiaf yr ysgol yn medru rhestru rheolau. Bydd yna noson diogelwch y wê ar gyfer rhieni ar ôl gwyliau'r hanner tymor er mwyn lledaenu'r neges yma ymhellach ac i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r pwnc.

Llongyfarchiadau gwresog i Sara Davies o flwyddyn 6 am gyrraedd rownd derfynol Cogurdd ym Mro Teifi. Cafodd sawl aelod o staff y fraint o flas ei bwyd wrth iddi baratoi prydau blasus ar gyfer y dydd. Cyflawniad a phrofiad gwych Sara!

Diolch unwaith eto i Lleucu o'r Urdd am ei sesiynau sgiliau chwaraeon gyda blynyddoedd 1 a 2. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ei gweld bob pythefnos ac wrth eu bodau yn datblygu ac ymarfer eu sgiliau pêl amrywiol.

Gwnaeth aelodau o ddisgyblion y Cyngor Ysgolion Iach a'r Dewiniad Digidol baratoi cyflwyniadau gwybodus i'r Llywodraethwyr ar ddiwedd y mis. Rhannwyd gwybodaeth am eu gwaith caled a chynlluniau yn ystod y flwyddyn ysgol yma, gan gynnwys yr holl weithgareddau a datblygiadau. Cafodd y Llywodraethwyr y cyfle i gwestiynu'r disgyblion gan holi am eu targedau a'u cynlluniau nesaf. Dyma brofiad heriol a gwerthfawr i'r disgyblion wrth gyflwyno gwybodaeth iddynt, a chyfle arbennig i rannu llais a i) – 1af Swyn



Gillian Jones, Sara Davies, Megan Davies, Wendy Davies a Steffan Jarman.

Ar y Cyfrwy

Fy lle gorau yw ar fy nghyfrwy,
Cyfrwy lledr, cyfforddus yn sgleinio fel pibonwy,
A'r awel oer yn chwythu drwy fy ngwallt cochlyd,
Teimlad hapus sy'n dod â gwen,
A sŵn yr adar yn canu'n llawen,
Golygfeydd hudol, hafaidd, hardd,
A'r haul yn sgleinio wrth boethi fy wyneb,
Carlamu'n gyflym fel pêl droediwr yn rhedeg am
y gôl,
A'r mynydd mawr, maith yn cuddio'r haul
sy'n machlud,
Blodau'r lili yn dechrau agor, a'r daffodil hardd yn
gwenu ar yr heulwen.
Agosatrwydd at fy ngheffyl sydd orau i mi,
Yn carlamu yn fy nghyfrwy esmwyth i,
O fore'r wawr tan hwyr y nos
Does un man gwell na fy nghyfrwy dlos.



Buodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar drip addysgiadol i Gastell Henllys er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o'r gwaith dosbarth am y Celtiaid. Gyda thywydd gwych a disgyblion cyffrous, cafwyd diwrnod prysur llawn gweithgareddau ymarferol megis adeiladu wal, pobi bara ar dân agored, peintio wynebâu fel rhyfelwyr Celtaidd a dysgu sgiliau gof oes y Celtiaid. Roedd y plant wrth eu bodau ac wedi dysgu llawer o ffeithiau diddorol.



gwaith y disgyblion gyda'r corff Llywodraethol.

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafwyd Eisteddfod yr Ysgol a braf oedd gweld cymaint yn y Neuadd yn mwynhau ac yn cefnogi'r plant. Buodd pawb yn ymarfer yn drwyadl ar gyfer y dydd a'r plant yn frwdfrydig wrth baratoi ar gyfer cystadleuaeth y côr yn eu tai - Alltgoch, Grannell a Maes. Diolch yn fawr i feirniaid y dydd am eu gwaith caled. Yn gyntaf i Gillian Jones am feirniadu cystadleuaeth y Gadair. Y dasg eleni oedd ysgrifennu cerdd gyda'r thema 'Fy hoff le'. Roedd y safon yn uchel ac yn agos iawn. Diolch hefyd i Elgan Jones Davies am feirniadu'r cystadlaethau canu ac i Ffion Bowen am feirniadu'r cystadlaethau llefaru. Dyma fel y barnwyd y cystadlaethau:

Y Gadair – 1af Megan Davies, 2il Steffan Jarman, 3ydd Sara Davies.

Llefaru Derbyn (Dau gi bach) – 1af Dafydd Sisto Jones, 2il Aiden Gavin, 3ydd Cara Jones a Tom Davies

Llefaru bl.1 a 2 (Pysgota Sêr) – 1af Aron Lewis, 2il Osian Mills, 3ydd Llewelyn Gregson

Llefaru bl. 3 a 4 (Y Gornel Dywyll) – 1af Esyllt Jones, 2il Mari Rees, 3ydd Fflur Morgan

Llefaru bl. 5 a 6 (Dewis Timau) – 1af Jac Rees, 2il Nia Williams, 3ydd Lowri Rees

Canu Meithrin (Mi Welais Jac y Do) – 1af Grannell, 2il Alltgoch a Maes

Canu Derbyn (Mi Welais Jac y Do) – 1af Hana Jones, 2il Bela Potter Jones, 3ydd Isis Neale

Canu bl. 1 a 2 (Mae'n ddrwg gen i) – 1af Noa Potter Jones, 2il Megan Sisto, 3ydd Wil Ifan Williams a Tirion Tomos

Canu bl. 3 a 4 (Cofio) – 1af Erin Potter Jones, 2il Elin Morgan, 3ydd Glesni Rees

Canu bl. 5 a 6 (Fy ngardd fach Tomos, 2il Megan Davies, 3ydd Lucy Moyes, Gwobr arbennig Madi Potter

Côr (Beic Peniffardding) – 1af Alltgoch, 2il Grannell, 3ydd Maes

Llawysgrifen Meithrin – 1af Sara Lewis ac Efa Jones, 2il Evelyn Archard ac Elliw Mills

3ydd Osian Evans

Llawysgrifen Derbyn – 1af Gwenllian Davies a Marged Jones Thomas, 2il Dewi Jones a Elliw Davies, 3ydd Seren Watson

Llawysgrifen bl.1 a 2 – 1af Stephanie Hopson, 2il Llewelyn Gregson ac Angharad Davies 3ydd Osian Mills

Llawysgrifen bl.3 a 4 – 1af Sioned Elias Davies, 2il Glesni Rees, 3ydd Elin Morgan

Llawysgrifen bl.5 a 6 – 1af Elin Lloyd, 2il Dwynwen Williams, 3ydd Lowri Rees a Megan Davies

Drefach a Llanwenog



Cafwyd llwyddiant arbennig gyda thîm rygbi tag bechgyn a merched blynyddoedd 5 a 6 yn Aberaeron. Gwnaethant chwarae'n wych wrth gydweithio fel tîm gan gyrraedd y rownd gyn-derfynol ysgolion cynradd Ceredigion ac ennill y 3ydd safle. Buodd pob un yn eu llongyfarch wrth iddynt ddychwelyd yn ôl i'r Ysgol yn llawn balchder gyda'u medalau efydd.

Gwobr arbennig Madi Potter
Celf Meithrin – 1af Hawys
Gruffudd, 2il Efa Jones a Sara
Lewis, 3ydd Erin Jones ac Evelyn
Archard

Celf Derbyn – 1af Marged
Jones Thomas a Thomas Pattie,
2il Gwenllian Davies, 3ydd Elliw
Davies

Celf bl. 1 a 2 – 1af Angharad
Davies, 2il Dion Evans a Noa Potter
Jones, 3ydd Alaw Jones a Nia
Davies

Celf bl. 3 a 4 – 1af Glesni Rees
a Sioned Elias Davies, 2il Tiffany
James Davies ac Erin Potter Jones,
3ydd Gwenno Mills ac Elin Morgan

Celf bl. 5 a 6 – 1af Dwynwen
Williams a Steffan Jarman, 2il Lucy
Moyes a Lowri Rees, 3ydd Swyn
Tomas a Megan Davies

Tŷ buddugol - Maes, 2il Grannell
ac Alltgoch yn drydydd.

Braf oedd gweld pob un plentyn
yn mentro i'r llwyfan ac yn
perfformio o flaen cynulleidf
niferus. Rydym fel ysgol yn falch
iawn o lwyddiant ac ymdrech pob un
ohonynt. Da iawn chi blant. Roedd
pawb wedi blino'n lân ac yn barod
am wythnos o wyliau erbyn diwedd
y diwrnod hir o gystadlu brwd.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ddechrau mis Chwefror,
cafwyd ymwelydd tra wahanol,
pan ddaeth swyddog o'r heddlu
gyda'i chŵn atom. Roedd hi'n
noson ddiddorol wrth iddi sôn am ei
gwaith o baratoi'r cŵn ar gyfer dal
troseddwy. Soniodd hefyd am ei
phrofiadau hi fel swyddog.

Aethom draw i salon harddwch
Toriad Taclus yn Llanybydder er
mwyn cael y profiad o drin gwallt.
Roedd pawb yn mynd adre' yn smart
iawn. Diolch i Catrin a'r staff am y
croeso a'r hyfforddiant, gobeithio dy
fod yn barod i gael sawl 'aprentis'
o'r clwb yn fuan!

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol
yng Ngwesty'r 'Ivy Bush' yng

Nghaerfyrddin ar nos Sadwrn 16eg
o Chwefror. Cawsom bryd o fwyd
blasus iawn ac yna chwaraewyd
gemau ysgafn. Llongyfarchiadau i
Meleri Davies ar ennill Aelod Hŷn
y flwyddyn ac i Osian Davies am
ennill Aelod Iau y flwyddyn.

Rydym yn brysur ar hyn o bryd
yn ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth
Hanner Awr o Adloniant sydd yn
cael ei gynnal yn Theatr Felinfach
yn ystod wythnos hanner tymor.
Rydym yn cynnal cyngerdd yn ysgol
Dyffryn Cledlyn ar nos Iau y 14eg
o Fawrth. Croeso cynnes i chi i
ymuno gyda ni i fwynhau gwledd o
adloniant.

Os oes gennych ddiddordeb
ymuno â'r clwb, cysylltwch gydag
un o'r aelodau, neu am ragor o
wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Walter
Harries, Cartref Maesyfelin ar golli
brawd yng nghyfraith, a theulu
Maesglas ar golli ewythr sef Mr
Gwilym Evans, o Aberaeron ar
ddiwedd mis Ionawr.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mair
Hatcher, Abernant sydd wedi derbyn
triniaeth ar ei throed yn yr ysbyty
ganol y mis. Gobeithio y byddi yn
cael gwared y ffyn baglau yn gloi.

Dathlu

Dathlodd Mary Davies, Maesglas
ben-blwydd arbennig ganol mis
Chwefror. Gobeithio eich bod wedi
mwynhau eich diwrnod.

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod mis
Chwefror yn Nrefach gyda Mary
Thomas yn y gadair. Dymunodd
wellhad i'r rhai hynny sydd yn
anhwylus ar hyn o bryd, a da clywed
fod Jane Jones, Pwllbilwg adre o'r
ysbyty a fod Nanna Jones, Garth,

yng Nghartref Alltymynydd yn
cryfhau ac i Mr Dai Davies, Llainfôn
gynt yn dechrau ar ei driniaeth.
Gwellhad buan i chwi gyd.

Cyflwynodd Mary ein gwraig
wadd, sef Mrs Elonwy Davies.
Cafwyd prynhawn hwyliog am
hanes Llanybydder yn mynd yn
ôl i'r tridegau ganddi a cawsom
hanes cymeriadau'r fro gan Mary.
Diolchodd Dilwen George i'r
ddwy am ein diddanu. Gorffenwyd
y prynhawn gan de hyfryd gan
Eglwysi Llanwenog a Llanwnnen.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 20fed
o Fawrth am 1.30y.p. yn Ysgol
Dyffryn Cledlyn â'r plant yn ein
diddanu gyda chyngerdd.

Edrychwn ymlaen.

Eglwys Santes Gwenog

Clwb Cant Mis Chwefror

£15 Margaret Rees

£10 Nia Evans

£5 Meryl Lloyd

Amserau'r Gwasanaethau yn yr

Eglwys

Sul cyntaf - 9.30yb

Ail Sul - 2.00yp

Trydydd Sul - 2.00yp

Pedwerydd Sul - 11.00 yb

Diolchiadau

Dymunaf ddiolch yn fawr i bawb
am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r
rhoddion caredig a dderbyniais yn
dilyn fy anffawd yn ddiweddar. Da
gennyf ddweud fy mod yn gwella'n
ddyddiol.

Diolch i bawb am eu consyrn a'u
dymuniadau gorau.

Jane Pwllbilwg.

Dymuna Mary Maesglas ddiolch
o waelod calon i bawb o bell ac agos
am yr holl ddymuniadau da, boed
yn gardiau, anrhegion / blodau a
dderbyniodd ar achlysur ei phen-
blwydd yn ddiweddar.

Dymuniad Gareth Maesglas
hefyd yw diolch am yr ymweliadau
â'r ysbyty a'r cartref, y cardiau,
galwadau ffôn a yb a dderbyniodd
yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.
Gwerthfawrognw y cyfan oll yn fawr
iawn.

Eisteddfod Genedlaethol 2020

Cofiwch am ddigwyddiad
nesaf Cronfa Leol Llanwenog a
Llanwnnen sef Te Cymreig yn Ysgol
Dyffryn Cledlyn, Drefach ar nos
Wener, Mawrth 22ain am 7.00y.h.
Artistiaid lleol yn cymryd rhan. £5
wrth y drws. Dewch yn llw.



Llanwnnen

Cydymdeimlo

Ganol mis Chwefror daeth y
newyddion am farwolaeth Mr Aneurin
Lloyd, gynt o Esgair Inglis. Roedd
ef a'i wraig wedi ymgartrefu yng
Nghwm Aur ers blynyddoedd bellach.
Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig
Dorothy a'r meibion David, Geraint ac
Emyr a'u teuluoedd yn eu colled.

Sefydliad y Merched

Cyfarfu'r aelodau yn Festri Capel-
y-Groes ar y 3ydd o Ragfyr 2018, ac
ar ôl cynnal cyfarfod byr mwynhawyd
noson gymdeithasol wedi'i threfnu
gan Carol Thomas, eu Llywydd. Bu'r
aelodau yn cystadlu mewn cwis,
yn datrys anagramau yn seiliedig
ar y Nadolig, yn canu carolau gyda
Ceinwen Roach ar yr organ ac yn
mwynhau lluniaeth ysgafn, gyda'r
gwin cynnes wedi'i baratoi gan Ann
Hughes. Cynhaliwyd y gystadleuaeth
fisol, sef cerdyn Nadolig lliwgar a'r
enillydd oedd Shân Lewis, gyda Carol
yn ail a Ceinwen yn drydydd.

Ar y 10fed o Ionawr 2019
cynhaliwyd cinio Nadolig hwyr y
Gangen yn Nhafarn Dyffryn Aeron,
Felin-fach a mwynhaodd pawb bryd
o fwyd tri chwrs blasus. Yn ystod y
noson cyhoeddwyd taw Carol oedd
enillydd cystadlaethau misol 2018 a
chyflwynwyd taleb iddi. Ar ddiwedd
y noson gwnaed y diolchiadau gan y
Llywydd a diolchwyd yn arbennig i
Ann am drefnu'r cinio.

Roedd Nataliya Roach, iachwraig
naturiol wedi'i gwahodd i'r cyfarfod
a gynhaliwyd ar y 4ydd o Chwefror
yn Festri Capel-y-Groes a threuliwyd
noson ddifyr yn ei chwmni yn dysgu
am reiki ac am iachau drwy gynyddu
egni'r corff, gan gynnwys defnyddio
lliwiau. Soniodd am sut y mae gwisgo
dillad o liwiau gwahanol yn gallu
helpu i wella cydbwysedd y corff
a bu'n arddangos ei dulliau ar bob
aelod. Yn ystod y cyfarfod busnes
i ddilyn trefnwyd rhaglen ar gyfer
2019-20 a braf oedd derbyn syniadau
newydd a gwahanol. Trafodwyd
pen-blwydd Cangen Sefydliad y
Merched Llanwnnen yn 70 oed hefyd
a phenderfynwyd cynnal cinio dathlu
ym mis Ebrill. Ar ddiwedd y noson
beirniadwyd y gystadleuaeth fisol gan
Nataliya, sef bag colur a'r enillydd
oedd Mary Davies, gydag Avril
Jones yn ail a Ceinwen yn drydydd.
Enillwyd raffl y noson gan Alice
Davies. Cyn ymadael, mwynhawyd
paned o de gan bawb, a diolchodd
y Llywydd i Nataliya am noson
ddiddorol ac addysgiadol.

Cinio Dathlu – 70 oed

Cynhelir cinio dathlu Sefydliad y
Merched Llanwnnen yng Nghegin
Gareth, ganol dydd, dydd Mercher,
10 Ebrill 2019. Pris: £25 y pen.
Croeso i'r aelodau presennol a chyn-
aelodau. Mrs Ann Jones, Is Gadeirydd
Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliad,
fydd y siaradwraig wadd. Enwau i
Carol (480239) erbyn 29 Mawrth.

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwjdinau

* Arlwy ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns WELSH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD Â LLAW YN EIN GWEITHDY

DEWCH I YMWELD Â N ADRAU BRIODASAU NEWYDD

01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,

Heol Pontfaen, Llambod

Ffôn: 423300 Ffacs: 423223

mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr

Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanfair Clydogau

Bore Coffi



Ar Chwefror 23ain cynhaliwyd digwyddiad cyntaf Llanfair a Chellan i godi arian at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Cynhaliwyd bore coffi, stondin gacenau a raffl o 11yb hyd 1yp yn Neuadd Llanfair, gyda bron gant o bobol yn troi i fyny. Dyma beth oedd bore anhygoel o lwyddiannus.

Trefnwyd y cyfan gan y pwyllgor o dan arweiniad y cadeirydd, Eleri Davies, Pentre. Roedd y neuadd yn llawn ac yn edrych mor brydferth gyda'r byrddau bach a lliciniau glas, a bara brith a chacenau bach wedi eu trefnu yn hyfryd ar blatiau, a blodau'r Gwanwyn ymhob man. Ar un ochr y neuadd roedd byrddau hir yn llawn a gacenau o bob math, y rhain wedi eu trefnu gan Joyce Dixon, Ty Lon a Meinir Miller, Cysgod y Coed. Roedd rhain i gyd wedi eu rhoi gan bobol caredig Llanfair a Chellan. Gwerthwyd y cyfan, gyda'r stondin gacenau yn unig yn codi dros £400, a'r raffl wedi tynnu llawer o sylw gyda'r llu o wobrau oedd yno i'w hennill. Cafwyd dwy awr o gymdeithasu â phawb wedi mwynhau a rhai ddim eisiau gadael! Rhaid rhoi diolch mawr i lu o bobol o Lanfair a Chellan, a phleser oedd gweld y ddau bentref yn cydweithio mor fendigedig. Codwyd swm o £1088.57, felly yr ydym dros hanner y ffordd at gyrraedd ein targed yn barod. Ymlaen â ni yn awr at y digwyddiad nesaf sydd i'w drefnu. Diolch i bawb a wnaeth helpu neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd.

Beddau'r Cariadon



Ar ddydd Sul, Chwefror 24ain, trefnodd Alan Leech, Tanyresgair, y daith yma i'r rhai a fethodd fynd y tro diwethaf, ac i unrhyw un arall o'r ardal a hoffai eu gweld. Dechreuodd y daith am hanner awr wedi un o'r neuadd ar ddiwrnod hafaid braf, gyda 19 ohonom yn cerdded, taith o tua hanner milltir lan ar hewl Llanddewi cyn troi i fyny lon Gwarffordd a cherdded lan llwybyr ceffyl tuag at Tanybryn, drwy olion yr hen fagwrn, a thrwy wylltyni yr hen ardd a dringo drwy'r coed i Fryn Cysegfran lle gorwedd beddau'r cariadon, Annie Isabella Jones a Edward Hesketh Formby, Glandenyys. Ar ôl cyrraedd y man, a chasglu o gylch y beddau, fe wnaeth Alan roi brith hanes y teulu pwysig yma gan na wyddai rhai lawer amdanynt. Man tawel ar ochr y bryn ydoedd, yng nghanol y drysni a'r coed. Ar ôl ambell i gwestiwn a tipyn o drafodaeth, cerddom yn ôl i'r neuadd i gael paned a chacen a chlonc. Diolch i Alan am arwain y daith ac i Sally ac Eleri am baratoi y te.

Gwellhad Buan

Pleser yw gweld Eleri Davies, Pentre, yn gwella mor dda ar ôl cael llawdriniaeth ar ei phenglin. Daliwch ati i wella. Hefyd i Deina Hockenhuil, Pentre gynt, sydd newydd gael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais. Bendith a gwellhad buan i chwi eich dwy.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Paul Miller, a'r teulu, Cysgod y Coed, ar farwolaeth ei dad, John Miller, Kingsmead, Llanbed yn 76 oed. Hefyd gyda teulu Y Llwyn, Heol Llanfair, ar golli Mary, gwraig Gerwyn. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd i gyd.

Sefydliad y Merched

Dathlwyd cinio blynyddol adran Llanfair yn Llain y Castell eleni, gyda tua 30 ohonom yn bresennol. Cafwyd noson hwylus a bwyd bendigedig fel arfer gyda Brian a Mavis. Trefnwyd y noson gan Iola Wilson, gyda'r llywydd, Dodi Herschel yn gwneud y diolchiadau. Trefnwyd bws i gludo pawb a bu'n noson yn llawn o fwynhad a sbri.

Corsgoch

18 oed

Dechrau mis Chwefror dathlodd Gethin Morgans, Glwydwern ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Sara a Gethin Hatcher, Penllain ar enedigeth merch fach, Leisa Anna. Hefyd i dadcu a mamgu, Geraint ac Eiddwen Hatcher, Cefnhafof a hen dadcu a hen mamgu, Dannie a Martha Davies, Llaingors. Pob dymuniad da i chwi gyd.

Llanllwni



Bu'r Adran Iau yn ymweld â Tyddewi. Buont ar daith bererindod gan wneud amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â hanes Dewi Sant. Roedd yn ymweliad addysgiadol iawn.



Ar ddydd "Defnyddio y Rhyngwrdd yn ddiogel", cafwyd pwerbwynt gan Miss Evans a siawns i drafod sut i fod yn ddiogel, a'r peryglon a allai ddigwydd os na fyddwn ni'n ofalus.



Aeth disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 i gystadlu yng nghystadlaethau Rygbi Tag yr Urdd yn Aberaeron. Roedd pawb wedi mwynhau, gan wneud eu gorau.

Ysgol Llanllwni

Cawsom ddiwrnod "Gwisgo Coch i Gymru" gan godi arian tuag at Uned Gofal Gansr Felindre.

Bu'r plant yn datblygu eu ymwybyddiaeth o fwydydd Masnach Deg drwy gael pwerbwynt, trafodaeth a gweithgareddau.

Hoffwn ddiolch i Ymddiriedolaeth R.R Davies am eu rhodd o £175. Bydd yr arian yn mynd tuag at brynu uned storio diogel i'n cliniaduron. Diolch yn fawr.

Treuliodd Miss Ffion Gaunt wythnos yn y dosbarthiadau fel rhan o'i chwrs nrysio yng ngholeg Abertawe. Roedd hi wedi mwynhau yn fawr. Diolch am dy gymorth a pob lwc i ti yn y dyfodol.

Daeth Gwyneth o Menter Iaith ar ymweliad arall, er mwyn gwneud ail

sesiwn o "Chwarae Buarth". Roedd ganddi syniadau da ac amrywiol am gemau syml ac addas i bob oed.

Buom i gyd allan ar yr iard yn gwyllo'r adar ar ddydd "Gwyllo Adar" yr RSPB. Gwelwyd sawl aderyn gwahanol, ac yna buom yn tynnu lluniau ac edrych am wybodaeth am adar.

Gan fod Mawrth y 1af yn ystod gwyliau hanner tymor buom yn dathlu Gŵyl Dewi Sant cyn y gwyliau. Roedd yn braf gweld y plant wedi ymdrechu i wisgo eu dillad Cymreig. Daeth Tim Jones i dynnu lluniau ac roedd pawb yn edrych yn smart iawn. Yn y prynhawn fe gawsom ein Eisteddfod. Cafodd y beirniad sef Mrs. Bethan Thomas, Y Bryn, waith anodd, a diolchwn yn fawr iddi am ddod i wneud y gwaith. Bu Bethan yn riant gweithgar iawn tra roedd ei thri plentyn yn yr ysgol. Diolch Bethan. Diolch hefyd i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio i'r plant a dod mewn i ymarfer cyn yr eisteddfod. Tîm Teifi oedd yn fuddugol eleni gyda Marek a Tilly yn gapteniaid. Diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i gefnogi. Roedd yn braf gweld y lle yn orlawn. Cafwyd prynhawn hwylus iawn.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol: Mis Chwefror:- 1af - £10 Celtic Classics, Llanllwni. 2il - £5 Teulu Llysnant, Llanllwni. 3ydd - £5 Gareth Jones, Prifathro, Ysgol Llanllwni



Dyma lun o blant a staff Cylch Meithrin Llanllwni wedi gwisgo lan i ddathlu diwrnod 'Frozen'.

Eglwys Sant Luc

Clwb 100 mis Chwefror:

1. £15.00 Wendy Brooker (132)
 2. £10.00 Meryl Rowlands (116)
 3. £10.00 Tydfil Parry Jones (73)
- Diolch am y gefnogaeth.

Undeb y Mamau

Yng nghyfarfod Chwefror bu un o'r aelodau, sef Edith Williams, yn annerch gweddill yr aelodau, a'i phwnc oedd dau dapestri – gwaith ei hen, hen famgu. Syndod oedd eu gweld mewn cyflwr crystal. Roedd

ganddi hefyd dri llun Cristnogol i'w dangos, a'u disgrifio. Diolch Edith am orig ddiddorol.

Ar y 12fed o Chwefror, yn y Neuadd Gymunedol, roedd tyrfa gref wedi dod ynghyd i noson lansio llyfr o farddoniaeth, Myfyrdodau Pysgotwr, - gwaith y diweddar Barchedig Sam Jones a fu'n ficer yn Llanllwni am 37 mlynedd. Roedd hi'n noson hyfryd iawn.

Lansio cyfrol

LANSIO CYFROL O FARDDONIAETH CYN FICER

Nos Fawrth y 12fed o Chwefror, yn Ystafell yr Eglwys, daeth tyrfa gref ynghyd ar gyfer lansiad cyfrol o farddoniaeth y diweddar Hybarch J Sam Jones, 'Myfyrdodau Pysgotwr'. Canon Eileen Davies wnaeth gadeirio'r noson gyda dwy ferch Sam Jones yn annerch. Talu pleidlais o ddiolch wnaeth Mary Sinclair ac mi adroddodd Ann Barlow ychydig o hanes ei thad; o'i fagwraeth ar aelwyd ddiwyllianol Gwarcoed, Esgairdawe, drwy addysg, ei ordeinio a dod yn gurad Llandysul ac wedyn Llandybie, i'r blynyddoedd llewyrchus a niferus fel Ficer Llanllwni a Chapel Dewi.

Bu'n gefnogol i'r gymuned drwy'r 37 mlynedd y bu'n Ficer yma gan ddal at waith y plwy' wedi iddo gael ei ddyrchafu'n Archddiacon. Yn hoff o bysgota, bu'n barddoni drwy gydol ei oes, ac yn enwedig ar ôl ymddeol ym 1986 i Bryn Rd, Llanbed. Mynychodd ddosbarthiadau cynganeddu y Prifardd Idris Reynolds. Addas felly oedd iddo ef, a fu yn gymorth i'r teulu olygu'r gyfrol, roi annerchiad byr, a gwnaeth hyn mewn modd cynnes a hwylus.



Dewi, elusen a sefydlwyd i estyn clust i wrando ar amaethwyr mewn angen yn Esgobaeth Tyddewi (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phenfro). Mae'r llyfr ar werth am £5 yr un gyda'r Canon Eileen Davies, Gwndwn, (01559 384 248).

Cyflwynwyd darnau o waith Sam Jones ar gân, gydag Ysgol Sul yr Eglwys yn canu cyfieithiad o emyn a'r C.Ff.I. yn canu cân ysgafn o'i waith. Cafodd y gynulleidfa eu swyno hefyd gan Gwen, wyres y diweddar Ficer a Mrs Jones, yn canu dau o weithiau ei thad-cu i gyfeiliant ei thelyn.

Fel y nodwyd yn y lansiad, gwerthir y llyfr er budd elusen Tir

Enw: **Sian Elin**

Oed: 23

Pentref: Pencarreg

Gwaith: Swyddog Datblygu'r
Iaith Gymraeg

Partner: Ynyr James

Teulu: Dad, Mam a Manon

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Rhaid mae Suite Life of Zack and Cody ar Disney Channel..o'n i'n obsessed.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Mae popeth yn digwydd am reswm.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

I beidio beco beth 'ma pobol yn meddwl amdanai. Os fy mod i'n hapus dyna'i gyd sy'n bwysig.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Atomic Kitten

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Athrawes ddrama – Joio bod ar lwyfan ers oed ifanc iawn.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Yn teithio gwledydd y byd gyda Ynyr – ac yn cerdded/mynydda.

Pwy yw dy arwyr?

Dad a Mam..bob tro.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu mewn modd creadigol o fewn cymdeithas.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Pawb yn barod i fod o gymorth unrhyw bryd

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Sdim lot o signal ffôn gyda ni adref

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Teithio'r byd

Pryd llefaist ti ddiwethaf?

Yn gwylio'r ffilm 'Lion' heddiw... O'n i methu stopio.

Unrhyw ofergoelion?

LOT...Croesi ar star, gweld piod, cath ddu yn croesi o flaen y car.



Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Graddio llynedd mewn pwnc dw i'n 'i garu - Drama.

Ac yn bersonol?

Colli bron iawn i bedair stôn.

Wyt ti'n difaru rhywbeth?

Ddim yn gweld pwynt difaru unrhywbeth oherwydd ar y pryd mae e gan amlaf y peth iawn i wneud.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Mynd am jog fach nawr ac yn y man.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

'Gwna ti beth wyt ti eisiau neud'

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Fyde ni'n meddwl mae siwrnai o golli pwysau newidodd fy mywyd i. Gollais bedair stôn nôl yn 2017 a dyna'r peth gorau dw i erioed wedi gwneud. Dw i lot yn fwy iach ac yn hapusach. Er dw i'n credu'n gryf nad yw pwysau ar y scales na maint dillad yn diffinio neb, dim ond yr unigolyn hynny sydd yn gwybod sut y maent yn teimlo ac i fi o'n i'n barod i golli pwysau, a dyna llaw ar fy nghalon y peth

gorau i fi erioed wneud.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Creadigol, Cydwybodol, Cariadus

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Corsa bach gwyn

Beth yw dy hoff air?

Blaguro

Beth yw dy hoff wisg?

Dwlu ar wisgo ffrogau midi – mae'n rhwydd i wisgo nhw lan a lawr.

A'th hoff adeilad?

Dim cweit yn adeilad, ond y peth mwya anghygoel i mi weld – Machu Pichu yn Peru. Ar ôl dringo dros 5 diwrnod drwy'r gwynt, glaw, yr eira a'r heulwen – odd hi werth gweld Machu Pichu ar y diwedd.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Thai..ers bod yn Thailand dwy flynedd nôl, dwlu ar fwyd Thai.

Beth yw dy ddiod arferol?

Latte....Joio ymweld â caffis gwahanol a blasu'r coffi

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Ar hyn o bryd dw i'n ail ddarllen Y Tŵr - Gwenlyn Parry (fy hoff

ddrama yn y byd)

Beth yw dy hoff arogl?

Arogl cinio dydd Sul Mam..bob tro.

Sut wyt ti'n ymlacio?

Cerdded. Dwlu mynd i gerdded ar hyd llwybr yr arfordir, Penylan.... ond mae'n rhaid ymweld â chaffi bach wedyn i gael latte a chacen fach..joio.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Instagram

Hoff gân ar dy ipod?

Clarach gan Los Blancos...Band arbennig o dda.

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

Wwww sain siwr iawn. Rhyw 20?

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

LION..ffilm dda.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Lluniau...Mae lluniau yn rhywbeth i drysori, a dod ag atgofion, felly bendant lluniau.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Chwarae'r gitar. Joie ni greu band merched yn debyg i Eden...a chwarae'r Gitar yn dda.

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Digon o gwsg. Rhaid cysgu o leia 8 awr bob nos.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Teulu a Ffrindiau. Dw i wedi mynd i feddwl, os bod nhw'n cytuno gyda syniadau sydd gennai, neu yn cytuno ar unrhywbeth fi'n meddwl gwneud, wedyn dw i'n hapus.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?

Fi'n lico meddwl 'ny.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?

Cyfarwyddwraig Theatr

Y gwyliau gorau?

Teithio De America yn Haf 2018..Gwledydd anhygoel a mor ddiwylliannol.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

India, Zimbabwe a Japan.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Dringo i Base Camp Everest, Neidio allan o awyren ac hefyd Dringo Kilimanjaro



Y mae Chwefror yn fis cymharol dawel i'r rhedwyr yn ardal Llanbed ond y mae digon o gystadlaethau ar gael i'r rhai sy'n barod i deithio, a bu aelodau Clwb Sarn Helen yn rhedeg mewn pedair hanner marathon yn ystod y mis.

Aeth pedwar aelod i redeg Hanner Marathon Llanelli ar hyd Llwybr yr Arfordir ar y 10fed o'r mis. Er i'r gwynt osod tipyn o rwystr ar adegau llwyddodd Ken Caulkett i ddod yn 50fed allan o 1500 o redwyr mewn 84 munud a 27 eiliad, gyda Nigel Davies yn dilyn (88.52.) Dangoswyd dyfalbarhad hefyd gan Nicola Williams (112.15) a Rebecca Doswell (131.51) i orffen y cwrs deniadol hwn o 13 milltir a 192 llathen a 6 modfedd ar hyd y lan.

Nid oedd rhaid teithio'n bell i Hanner Marathon Tregaron ar yr 17eg o'r mis, ond er hynny yr oedd presenoldeb 26 o aelodau'r clwb ymhlith y 125 o redwyr yn cynrychioli ymdrech i'w chanmol. Am unwaith ni orffennodd yr un ohonynt yn y deg uchaf wrth i Richard Copp o Abertawe ennill mewn 77 munud a 19 eiliad a Simon Hall yn y 12fed safle (86.24) ddaeth yr agosaf i wneud hynny. Glyn Price (3ydd dyn dros 50 mewn 88.29) Eleri Rivers (3edd fenyw dros 35 mewn 104.39) a Delyth Crimes (3edd fenyw dros 45) oedd yr unig rai i gyrraedd y gwobrau, ond cafwyd cystadlu tyn rhwng Dan Hooper (18fed mewn 89.43), Meic Davies (19eg mewn 90.24), Carwyn Davies (22ain mewn 90.41), Mark Rivers (23ain mewn 90.43), George Eadon (25ain mewn 91.52) a Kevin Hughes (27ain mewn 93.33.) Yn nes yn ôl yr oedd Steven Holmes (101.27) yn parhau gyda'i adferiad i ffitrwydd, ychydig o flaen Aled Morgan (110.51) a chlwtwr o redwyr yn cynnwys Mick Taylor (111.10), Mitchell Readwin (111.18) a Siân Roberts Jones (111.41.)

Er fod y ras yn dilyn yr hen reilffordd o Ystrad Meurig yn ôl i Dregaron y mae dringfeydd y 7 milltir cyntaf trwy Swyddffynon yn ei wneud yn gwrw anodd, a llongyfarchiadau hefyd i'r aelodau eraill a'i cwblhaodd - Tim Davies, Joanna Rosiak, Owen McConochie, Nicola Williams, Heather Hughes, Andrew ac Amy Edgell, Elish Jones, Jane Holmes ac Emma Gray.



Y drydedd hanner marathon oedd hwnnw yn Wrecsam ar yr un dydd. Allan o 2403 o redwyr daeth Caryl Wyn Davies yn 25ain ac yn 8fed yn ei dosbarth mewn 89 munud a 37 eiliad - tipyn yn gynt na'i hamser hi yno'r flwyddyn ddiwethaf. Gyda hi yr oedd Liz Pugh a orffennodd yn 35ain yn ei dosbarth mewn record bersonol o 125.49. [llun ar y chwith].

Eto ar yr un dyddiad dros yr un pellter, ond dros dirwedd dra gwahanol a llawer anoddach, rheddodd Alexander Price ras lwybr yng Nghyfylchi trwy fforest Afan

ger Pontrhydyfen, gan wneud yn arbennig o dda. Daeth yn 60fed allan o 700 ac yn 16eg yn nosbarth y dynion dros 35 oed, mewn 105 munud a 6 eiliad. Os yw ambell un o aelodau hyn y clwb yn gorfod arafu ei gam dyma brawf calonogol fod aelodau ifanc addawol yn dal i ymddangos.



Tim Sarn Helen yng Nghrymch.

Aberduar

Cynhelir Arwerthiant Blynnyddol yn Festri Aberduar ar yr 20fed o Fawrth am 7 o'r gloch. Agorir yr arwerthiant eleni gan Eryl Jones, Gorsgoch. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Clefyd Siwgr

Cynhelir cyfarfod o Gymdeithas Clefyd Siwgr, Cangen Llanybydder, ar Nos Fawrth y 12fed o fis Mawrth, yn Festri Aberduar am 7.30. Siaradwyr gwadd - Nyrsys Clefyd Siwgr Cymunedol Anwen Jones a Helen Saunders. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Dorothy Lloyd, 30 Cwm Aur ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd iddi yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei annwyl ŵr, Aneurin, yn ddiweddar.

Gwaed Cymru

Llongyfarchiadau i Eurwyn, Heol-y-Gaer am roi ei 100fed uned o waed yn ddiweddar. Mae ei waed yn addas i fabanod sydd wedi eu geni o flaen amser. Tipyn o gamp.

Noson Bingo

Bydd Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo ar y 26ain o Fawrth yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch. Gwobrau ariannol a raffl.

Pwyllgor y Pentref

Bydd Pwyllgor y Pentref yn cynnal noson i ddewis Brenhines - "Queen Selection Ball" yng Ngwesty Cross Hands ar y 12fed o Ebrill am 6.00 o'r gloch.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal diwrnod "It's a Knockout" ar y 26ain o Fehefin lawr ar y cae rygbi am 12.30, gyda £50.00 i'r tîm buddugol. Bydd adloniant nos lawr yn y Llew Du gyda "Tom Jones tribute".

Cofiwch am Wythnos Carnifal Llanybydder o'r 23 - 29 o Orffennaf.

Cyfarfod Cyhoeddus

Bu cyfarfod cyhoeddus ynglyn â Storm Callum ar yr 14eg o Chwefror '19 yn y Llew Du, Llanybydder. Diolchwyd yn fawr i Ruth Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Sir Gâr a'i thîm am baratoi cyflwyniad gwyb erbyn ein cyfarfod. Roedd nifer o wahanol sefydliadau yno a dangoswyd cefnogaeth da i'r achos. Gobeithio bydd gwelliannau yn y dyfodol.

Rhoddwyd £250.00 i'r Llanybydder JFC.

Rhoddwyd £100.00 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor - ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpll.com

www.richardjarman.tpll.com



true potential
wealth management

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Brexit – a hollti coed

Lyn Blaenblodau oedd yr ysbrydoliaeth. Wel, nid Lyn yn hollol, ond y peiriant sydd ganddo fo i hollti boncyffion coed yn ddarnau hwylus i'w llosgi.

Wrth ei helpu i ddefnyddio hwnnw y dechreuais i feddwl am hynt a helynt pleidiau gwleidyddol a'r rhwygiadau sy'n dechrau ymddangos yn rhai ohonyn nhw.

Gwell esbonio ychydig bach am y peiriant i ddechrau, er fod gwneud hynny ychydig fel tasg y boi hwnnw a geisiodd ddisgrifio buwch wrth rywun nad oedd erioed wedi gweld un ... a landio mewn tipyn o strach.

Yn syml iawn, felly ... ar un pen mae yna driongl metal, cryf iawn, tebyg i flaen saeth. Yn y pen arall, mae yna blât o fetel soled arall sy'n gallu symud yn ôl ac ymlaen.

Rydech chi'n gosod y darn mawr o goed yn y canol. Yna tynnu lifer a phwyso botwm ac mae'r plât yn symud yn araf ond di-droi'n ôl i wthio'r coedyn yn erbyn y triongl metal.

Weithiau, mi fydd y coedyn yn hollti'n hawdd; weithiau, mi fydd yna ymlafnio. Ac yn ymddygiad y gwahanol ddarnau o bren y gwelais i ddarlun o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Torri'n hawdd

Y blociau hawdd i ddechrau. Mi fydd y rheiny'n hollti ar unwaith a'r ddau ddarn yn tasgu bron oddi ar y peiriant. Dyna ichi blaid fel UKIP sy'n chwalo ar y cyffyrddiad lleia' ... er efallai y byddai rhyw bren artiffisial fel MDF yn well cymhariaeth fyth ... rhywbeth sydd wedi cael ei wasgu at ei gilydd yn hytrach na thyfu'n naturiol.

Mi fydd ambell goedyn yn ymddangos yn anystywallt a chithau'n meddwl na ddaw dim ohono. Ond, yn sydyn, ar ôl gwasgu un ffordd ac wedyn ffordd arall, mi dorrih yn sawl darn ar unwaith. Y Rhyddfrydwyr-SDP-Democratiaid Rhyddfrydol falle ... plaid sydd â rhannu yn eu DNA.

Efo ambell ddarn o bren wedyn, dim ond rhyw ddernyn bach fydd yn dod yn rhydd a chnewyllyn y coedyn yn aros yn styfnig o gyfan. Fel rheol, fel yna y mae plaid fel Plaid Cymru'n ymddwyn; mi fydd ambell rebel neu aelod mwy gwangelon yn gadael ond mae'r achos yn ddigon i gadw'r gweddill ynghyd.

Ar y cyfan, felly y mae'r ddwy blaid fwya' wedi bod hefyd. Mae achos y dosbarth gwaith wedi bod yn ddigon i gynnal teyrngarwch aelodau Llafur – y rhai go iawn – a buddiannau eu dosbarth hwythau a'r awydd am ffyniant ariannol wedi cadw'r Ceidwadwyr ynghyd er gwaetha'u holl raniadau.

Ond does dim atal ar y peiriant. Weithiau, pan fydd boncyffyn yn edrych yn ddi-ildio, a'r ceinciau neu'r colfenni, yn ei gadw'n gryf, mi fydd fel petai'n cael ei rwygo ar wahân. Bron na allwch chi weld pwysau'r peiriant yn gweithio arno fo, yn gwthio'r haenau o bren oddi wrth ei gilydd, nes bron â gwneud iddyn nhw sgrechian.

Yn y diwedd, allan nhw ddim aros ynghyd ac mi fydd y ddau ddarn wedi'r hollti yn gam i gyd. Mi fydd graen y pren yn plygu a throï efo'r un math o batrymau ag a welwch chi ar lannau môr yn Sir Benfro neu dde Ceredigion, lle mae symudiadau'r ddaear filiynau o flynyddoedd yn ôl wedi stumio siâp y creigiau.

Mae pob argoel y bydd rhagor o aelodau'n gadael Llafur a'r Ceidwadwyr os na fydd yna newid mawr mewn amgylchiadau. Efallai na fydd yn digwydd ar unwaith – ambell dro, mae'n rhaid bod yn amyneddgar wrth hollti'r boncyffion hefyd. Ond, yn y pen draw, mae'r gwasgu didrugaredd yn ormod.

Dyna sydd fel petai'n digwydd ar hyn o bryd. A'r Undeb Ewropeaidd a Brexit ydi fersiwn y byd gwleidyddol o beiriant Lyn Blaenblodau.

Mae CLONC wastad yn chwilio
am bobl newydd i helpu.

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu
lluniau?*

Hoffech chi weinyddu'r wefan?

Neu beth am waith dylunio?

*Rydym yn chwilio am swyddogion
hysbysebu a swyddogion gwerthiant.*

*Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r
crîw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes
er mwyn cynnig eich gwasanaeth os
gwelwch yn dda.

Gwasanaethau Coed Llambed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llambed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Mae'rwy'r Amgwyddol/
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO
AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddî a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Ymarfer gyda'r dysgwyr

Tybed ellwch chi helpu ein dysgwyr gyda'u siarad Cymraeg? Mae'r bobl yma yn rhoi o'u hamser dros flynyddoedd ac yn gwneud ymdrech fawr. Mae'n bwysig iawn i ni eu cefnogi

Gofynnwyd i nifer o fewn y dosbarthiadau Cymraeg am awgrymiadau i ni Gymry Cymraeg ar sut i'w helpu.

Debbie: "Hoffwn i os gwneith pobl siarad yn arafach a hefyd ail adrodd y cwestiwn neu'r sylw. Dw i ddim moyn iddyn nhw droi i'r Saeneg ond rhoi amser i ni ddeall. Os ydyn ni weithiau yn ateb yn Saeneg cariach chi ymlaen yn Gymraeg. Rydyn ni wedi deall!"

Rita: "Daliwch ati gyda ni. Dw i'n dweud 'Dw i'n dysgu Cymraeg' ac weithiau mae unigolion yn dweud 'Da iawn' ac yna yn troi i'r Saeneg!"

Marc: "Plis peidiwch dweud 'Dyn ni ddim yn gweud o fel yna' helpiwch ni fel mae merched y Siop Siarad yn gwneud. Mae'r tiwtor yn dweud 'Cyfathrebu sy'n bwysig'."

Sara: "Dw i'n mynd i Gôr Corisma ac mae'n ffordd dda i ddysgu iaith - y caneuon a sgwrsio hefyd."



Mae Siop Siarad yn cael ei gynnal yn yr Hedyn Mwstard ar ail ddydd Iau y mis, am 2 o'r gloch, yn y cwtsh. Dewch i sgwrsio, a diolch i Verina, Eryl, Mary a Myfanwy am helpu Ann y trefnydd.



Mwynheuodd tua 16 o Ddysgwyr cylch Llanbed noson yng nghwmni Merched y Wawr. Cafwyd sesiwn celf dan arweiniad Aerwen Griffiths ac Ann Davies a chyfle braf i sgwrsio a mwynhau lluniaeth hyfryd.

Noson **Caws a Gwin a Chlone** yn Nhafarn y Porth, Llandysul ar nos Wener 5ed o Ebrill am 7:30yh. Bydd Dylan Iorwerth yn cadeirio panel o siaradwyr sef Ben Lake AC, Canon Eileen Davies a Catrin Haf Jones.

Noddir y noson gan Gomer. Mynediad drwy docyn yn unig. Pris y tocynnau fydd £7 yr un ac maent ar gael o'r Porth, Siop Ffab, Siop Smotyn Du, Gweinidogion y Smotyn Du neu drwy ebostio ymofynnydd@outlook.com

Bydd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng elusennau MIND Cymru a Chanolfan Llys Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Croeso cynnes i bawb.



Melysfwyd Sul y Mamau

Gyda Sul y Mamau ar ddiwedd y mis eleni, cewch ddigon o amser i ymarfer, siopa a pharatoi'r ryseitiau hyfryd yma: pwdin ar ôl cinio, a'r llall i de. Maent yn hawdd i'w paratoi, yn flasus ac yn felys. Perffaith!!

Rhaid oedd cynnwys rysait sy'n cynnwys siocled, ac yna ychydig o hud a lledrith gyda'r pwdin lemwn. Rwyf yn siwr y bydd Mam wrth ei bodd â'r danteithion yma ar y diwrnod arbennig, ac yn siwr o'u rhannu gyda chi hefyd.

Sul y Mamau hapus,
Gareth

Brownies Sul y Mamau

225g Menyn pysgnau crensiog ['Crunchy peanut butter']
200g siocled tywyll
100g blawd codi
200g siwgrwr meddal brown golau
3 ŵy

Dull

1. Trowch y ffwrn i wres 180C, Ffan 160C, Nwy 4, a leiniwch dun 20cm sgwar.
2. Cadwch 50g o'r menyn pysgnau a siocled i'r naill ochr. Toddwch gweddill y menyn pysgnau, siocled a'r siwgrwr mewn sosban.
3. Yna cymysgwch yr wyau'n raddol i mewn iddo, ac wedyn y blawd, ac arllwys y cyfan i'r tun.
4. Toddwch gweddill y menyn pysgnau yn y popty-ping, a sgeintiwch dros y top.
5. Pobwch am 30-35 munud.
6. Addurnwch â siocled wedi ei doddi. Arhoswch i'r gacen oeri cyn ei dorri'n sgwariau.

Pwdin Lemwn Hud a Lledrith

75g menyn
190g siwgrwr mân
Sest a sudd 3 lemwn
3 ŵy wedi eu gwahanu
75g blawd codi
200ml llaeth

Dull

1. Irwch ddysgl sydd yn addas i'r ffwrn. Trowch y ffwrn i 180C, Ffan 160C, Nwy 4.
2. Curwch y menyn, siwgrwr a sest y lemwn nes ei fod yn ysgafn, yna'n raddol ychwanegwch y melyn ŵy, yna'r blawd. Wedyn i mewn â'r llaeth a'r sudd.
3. Chwipiwch y gwyn ŵy, a phlygwch ef mewn i'r gymysgedd. Arllwyswch i'r ddysgl a phobwch am 40 munud.
4. Wedi pobi, bydd y sbwng ar y top a'r sudd ar y gwaelod. Gweinwch yn gynnes gyda hufen wedi'i chwipio.

Chwilio am anrheg perffaith ar gyfer Sul y Mamau?

Beth am Hamper o gynnyrch cartref: Pris £20
Cacen Sul-y Mamau, siocledi, pice-ar-y-maen, bisgedi, Pot o jam, marmalêd
a photel o 'gordial blodau'r 'sgawen'

I archebu: ffoniwch Gareth Richards - 01570 422 313.





Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Rwy'n siwr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? Wel pob lwc i bob un ohonoch ar y llwyfan neu gyda'r cystadlaethau creadigol, a gwnewch eich gorau glas!

Unwaith eto y mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio llun y parti Tseineidd ac roedd y postmon yn brysur iawn unwaith eto. Llongyfarchiadau i bawb ond yn enwedig i Angharad Davies o Frynteg, Elliw Grug Davies o Drefach a Sara Fflur Pugh o Ystrad Meurig am luniau taclus a lliwgar. Ond mae un yn dod i'r brig sef un gwych Ifan Teifi Davies, Llys Helyg, Glyn Hebog, Llanbedr Pont Steffan. Da iawn ti Ifan.

Wel mae'r Cennin Pedr yn dechrau dod allan a phawb wedi bod wrthi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Felly beth am liwio llun y Cennin Pedr sydd yn fy ngardd. Ewch ati i liwio'r llun a'i ddychwelyd i mi cyn diwedd y mis.


Hwyl am y tro



Enillydd
y mis!

Ifan
Teifi
Davies

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:



Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Dilwen George ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, blodau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn naw-deg oed. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr. Diolch.

Gohebiaeth

Dyddiaduron 2020 Y Lolfa

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2020 Y Lolfa. Os ydych am ddiweddarau neu ddileu unrhyw wybodaeth mae croeso i chi wneud hynny drwy ebostio sonia@yloffa.com

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5 ac A4.

Mae'r Lolfa yn cynnig gwasanaeth argraffu a dylunio llawn. Os ydych am dderbyn cyngor am unrhyw waith argraffu cysylltwch â Paul: paul@yloffa.com 01970 831901.

Pencarreg

Dathlu Pen-blwydd

Braf yw cael dymuno pen-blwydd hapus arbennig i Mrs Ruth Jones yn naw deg oed ar yr wythfed o Ebrill. Mae Ruth wedi chwarae rôl bwysig fel un o hynafiaid cymwynasgar y pentref. Dymuna ei chyd-aelodau yn Eglwys Pencarreg, a'i ffrindiau oll, ben-blwydd bendigedig iddi, ac edrychwn ymlaen at gael bod yn ei chwmmi am flynyddoedd i ddod.

Noson gyda
**Merched Bro Mwyn,
Cwmystwyth,
Kees Huysmans
ac Ann Davies**

**Nos Sadwrn, 24 Mawrth
am 6 o'r gloch
Llywydd: Stanley Evans,
Coed y Waun, Parcrhos
yng Nghapel Rhydybont,
Llanybydder.
Elw tuag at
Cancr Llanybydder a'r ardal.**

Clwb Clonc

Mawrth

£25 rhif 385:

John a Morwen Morgan,
Llambod

£20 rhif 26:

Osian Davies, Llanwenog

£15 rhif 131:

Huw Dudley, Cwmann

£10 rhif 219:

Delfryn James, Llambod

£10 rhif 221:

John James, Cwmann

£10 rhif 162:

Janet Evans, Llambod

£5 rhif 175:

Meinir Evans, Llambod

Rhifyn Ebrill

yn y Siopau

4 Ebrill

Erthyglau, Newyddion
a Llundain i law erbyn

23 Mawrth



Mwy na brocer yswiriant.

Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?

Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUIW

21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUIW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies

07757 668339 / 01544 340562

bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk

www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Ysgol Y Dderi ar dramp a Sioe Gorsgoch yn cyflwyno arian



Rhai o ddisgyblion Ysgol Y Dderi yn Castell Aberteifi ble cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn 1176 gan Yr Arglwydd Rhys.



Cynhaliwyd Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yng Nghlwb Rygbi Llambled, ar y 9fed o Chwefror. Daeth swyddogion a chefnogwyr y Sioe ynghyd i wleda ar fwyd blasus Cegin Gwenog, ac i fwynhau clywed mwy am yr elusen RABI gan ein siaradwraig wadd, Linda Jones, sef Rheolwr Rhanbarthol Cymru RABI. Prif elusen Sioe 2019 oedd Uned Ffisiotherapi Ysbyty Dydd Y Priory a Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Ceredigion, a braf oedd medru cyflwyno sic o £1,200 a £2,300 iddyn nhw. Hefyd, cyflwynwyd siciau o £500 i Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, a £500 i C.Ff. I. Llanwenog. Diolch i bawb unwaith yn rhagor am eu gwaith caled, cefnogaeth a'u haelioni.

Yn y llun y mae (chwith i dde): Sara Hatcher (Ysgrifennydd y Babel), Menna Williams (Ysgrifennydd y Cae), Elfyn Morgans (Perchennog Cae'r Sioe), Yvonne Evans (Llywydd y Sioe 2018), Byron Williams (Cadeirydd a Chynrychiolydd Neuadd yr Hafod), Daniel Evans (Llywydd y Sioe 2018), Eleri Davies (Trysorydd), Wendy Evans (Cynrychiolydd Neuadd yr Hafod), Steffan Howells (Casglu'r sic ar ran Peter Howells i'r elusennau), Sioned Davies a Lauren Davies (Cynrychiolwyr o C.Ff.I. Llanwenog), Helen Howells (Casglu'r sic ar ran Peter Howells i'r elusennau).

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a
fforddiadwy i'ch holl anghenion
gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu
biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Ceredigion a Sir Gâr



C.Ff.I. Bro'r Dderi yn perfformio 'Brwydr y Bobol Bach' gan Guto Gwilym. Cynhyrchydd oedd Corrach drws nesa'.



Llanwenog yn cyflwyno 'Oriol o Hud' gan Bach o bawb a'r Cynhyrchwyr oedd Bach o bawb hefyd. Sicrhaodd y clwb y 6ed safle.

Ar y brig yn 'Steddfod Bro Pedr



Siencyn Jones, Teifi, yn ennill yr unawd bechgyn a hefyd cwpan yr Actor gorau; Sara Elan Jones, Teifi, yn ennill tarian yr Adroddwr gorau; cwpan y Cerddor gorau; cwpan yr unigolyn gyda'r marciau uchaf Gwaith Cartref; cwpan yr unigolyn gyda'r marciau uchaf ar y llwyfan; Sioned Davies, Teifi yn ennill tarian yr areithiwr gorau. Hefyd Sioned a Sara Elan yn ennill y ddeuawd.



C.Ff.I. Llanllwni yn perfformio 'Gwaith Cartref' gan Gary Davies a fe oedd wedi ei gynhyrchu hefyd. Daeth y clwb yn 6ed.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant Sir Ceredigion yn Theatr Felinfach dros 5 noson yn ystod wythnos olaf mis Chwefror. Delme Harries o Sir Benfro cafodd y chwys o feirniadu'r gystadleuaeth. Gwelwyd 15 o glybiau yn cystadlu ac roedd y safon yn uchel tu hwnt.

Yna, yn Neuadd y Gwendraeth, Drefach, Llanelli cynhaliwyd cystadleuaeth Sir Gâr dros 3 noson. 9 o glybiau fu'n cystadlu drwy gyfrwng y Gymraeg yno. Terwyn Davies o Gaerfyrddin oedd y beirniad yno.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu o ardal Clonc mewn amryw o glybiau. Llongyfarchiadau mawr i Martha Thomas, C.Ff.I. Bro'r Dderi ar ddod yn 3ydd fel Actores orau dan 16 oed, hefyd i Bontsian ar ennill y Perfformiad Technegol orau.

C.Ff.I. Felinfach ddaeth i'r brig yng Ngheredigion, Llanddewi Brefi yn ail a Talybont yn 3ydd.

Pob lwc i Penybont a Felinfach a fydd yn cynrychioli eu siroedd ar lefel Cymru yn Theatr Hafren, Y Drenewydd ar Fawrth 9fed.

Sioe gyntaf lwyddiannus



Mewn arwerthiant ym marchnad Rhuthin ar ddydd Sadwrn, Chwefror 23ain i 'Show Potentials' cipiodd Dylan, Elen ac Elliw Davies, Dolydd Dŵr, Drefach y 'Supreme Champion' gyda llo 'Baby Shark' a oedd dim ond 4½ mis oed. Gwerthwyd y llo allan i'r Iwerddon am £6,000 – diwrnod llwyddiannus iawn iddynt fel teulu yn eu hymddangosiad cyntaf erioed mewn sioe / arwerthiant o'r math yma. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Yn y llun gwelir, Elen, Elliw a Dylan gyda Elliw ac Ifan Roberts o Ynys Môn a fu yn rhoi cymorth iddynt gyda'r arddangos yn ystod y dydd.